Gwireddu hawliau i holl blant Cymru

# BLWYDDYN O NEWID 2016-17

**COMISIYNYDD PLANT CYMRU : ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON**

**BLWYDDYN GYNTAF:**
Cynllun Strategol Tair Blynedd



**IECHYD MEDDWL, LLESIANT A MYND I'R AFAEL Â BWLIO**

'Stori Sam'

**TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYMDEITHASOL**

Cynllun Llysgenhadon Cymunedol

**CHWARAE A HAMDDEN**

Gweithio mewn partneriaeth; Mudiad Meithrin

**DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A GARTREF**

Prosiect Pontio'r Cenedlaethau

AGENDA.cymru

**CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A HYBU'R BROSES O'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS**


Cynllun Llysgenhadon Uwchradd

'Y Ffordd Gywir'

**PONTIO I OEDOLAETH**

'Breuddwydion Cudd'

'Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl yng Nghymru'



"Yn yr adroddiad hwn, mae llawer o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru yn deillio o negeseuon cryf rwyf wedi'u clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc"

# BLWYDDYN O NEWID 2016-17

**COMISIYNYDD PLANT CYMRU : ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON**

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Gomisiynydd Plant Cymru | 5 |
| Rhagair gan Gadeirydd Panel Ymgynghorol y Comisiynydd | 6 |
| Sut rydym wedi cyflawni ein hymrwymiadau | 7 |
| Y Pedair D | 12 |
| **Darpariaeth** | 14 |
| **Diogelu** | 27 |
| **Dweud eich Dweud** | 36 |
| **Deall eich Hawliau** | 39 |
| Diweddglo a Chrynhoi'r Argymhellion | 40 |
| Dadansoddiad o Argymhellion y Llynedd | 43 |
| Prosesau Gweithrediadol | 51 |
| Cyfrifon | 57 |

# BLWYDDYN O NEWID 2016-17




**“Rydym ni’n gwrando, yn codi llais, ac yn sicrhau canlyniadau”**

# RHAGAIR
## GAN GOMISIYNYDD PLANT CYMRU

**Dydw i ddim yn credu byddai dweud bod eleni wedi bod yn flwyddyn o newid yn ddigonol**.

Fwy na thebyg byddai blwyddyn na welwyd ei thebyg yn well disgrifiad. Mae penawdau'r newyddion eleni wedi bod yn llawn Brexit, etholiadau a chweryla gwleidyddol. A hynny er gwaethaf y ffaith bod rhai achosion pwysig o dorri hawliau plant yn digwydd ar draws y wlad. Ym mis Gorffennaf 2016 cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn eu Sylwadau Terfynol ar gyfer parti gwladol y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad yn amlygu pryderon, y tynnwyd sylw at rai ohonynt hefyd yn Sylwadau Terfynol 2008, ynghylch tlodi plant, oed pleidleisio a'r diffyg senedd ieuenctid, effaith anghymesur polisïau ariannol a dyrannu adnoddau ar blant, a'r ffaith nad oes gan blant amddiffyniad cyfartal o ddan y gyfraith rhag ymosodiad neu gosb gorfforol. Un o brif swyddogaethau fy swyddfa yw codi llais a sefyll dros hawliau plant a phobl ifanc, sydd mor anaml yn cael cyfle i godi llais drostynt eu hunain. Yn erbyn cefndir swnllyd Brexit, rwy'n ymdeimlo'n fwy nag erioed â'r ddyletswydd i godi llais am yr achosion hyn.

Yn yr adroddiad hwn, mae llawer o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru yn deillio o negeseuon cryf rwyf wedi'u clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc, ar faterion y buasai modd, fel arall, i lunwyr polisi, ymarferwyr a'r boblogaeth gyffredinol o oedolion beidio â sylwi arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion ynghylch costau trafnidiaeth, cyswllt â brodyr a chwiorydd ar ôl mabwysiadu, ansawdd a chostau gofal plant preswyl, bwlio, ac addysg perthnasoedd iach. Rydym ni'n gwrando, yn codi llais, ac yn sicrhau canlyniadau. Mae'r adroddiad hwn yn arddangos holl ystod y materion mae fy swyddfa yn eu herio, y nifer sylweddol o blant a phobl ifanc rydyn ni'n gwrando arnynt ac yn gweithio gyda nhw yn ddyddiol, gan gynnwys y rhai sy'n cysylltu â'm gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor, ac effeithiolrwydd ein perfformiad.

Mae ffocws cryfach ar weithio mewn partneriaeth hefyd wedi cyflawni canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae fy nghynllun tair blynedd ar gyfer plant a phobl ifanc yn dangos yn eglur fy ngweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Trwy gydweithio, rydym wedi gweld y cyfle hwn yn cynyddu ar gyfer nifer o'n plant mwyaf agored i niwed, sef plant a phobl ifanc sydd mewn gofal. Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion ynghylch ble rydym ni wedi gwneud awgrymiadau mentrus ac yna wedi gweithio gyda sefydliadau, sy'n gallu cyflawni newid ar draws y wlad, i droi awgrymiadau yn welliannau go iawn.

Carwn fynegi diolch didwyll i'm tîm o staff, yr wyf wedi dod i ddibynnu ar yr her a'r gefnogaeth maen nhw'n eu darparu, ac y mae eu hymrwymiad i blant a'u hawliau wedi ffurfio a sbarduno'r gwaith y byddwch yn darllen amdano yn y penodau sy'n dilyn.

Yn olaf, hoffwn gyflwyno'r adroddiad hwn er cof am Peter Clarke, Comisiynydd Plant cyntaf Cymru, a'r Deyrnas Unedig, a fu farw ddeng mlynedd yn ôl. Wrth adolygu'r atgofion y bu pobl yn eu rhannu gyda mi adeg ei farwolaeth gynamserol, fe wnaeth dau ohonynt fy nharo'n arbennig:

*"Roedd Peter yn ffrind gwirioneddol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd yn siarad â nhw fel pobl gyfartal, yn gwrando ar beth oedd ganddyn nhw i'w ddweud, ac yn parchu eu barn. Roedd yn Bencampwr Plant anrhydeddus."*

*"Peidiwn byth â siarad cymaint fel ein bod ni'n methu gwrando. Peidiwn byth â gwybod cymaint fel ein bod ni'n methu dysgu.*
*Cofiwch y rhai sy'n meddwl eu bod wedi cael eu hanghofio. A byddwch yno pan fyddant heb unman i droi. A boed y byd mae ein gweithredu yn ei greu fod yn un gwell - er mwyn y plant."*
Gweithred o ymrwymiad o Wasanaeth Coffa Peter, gan Grahame Davies.

Y deyrnged fwyaf y gallwn ni ei thalu i gofio am Peter yw gwneud hynny.

**Sally Holland**

# RHAGAIR

## GAN GADEIRYDD PANEL YMGYNGHOROL Y COMISIYNYDD

**Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru** adolygiad annibynnol oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod rôl y Comisiynydd Plant mor glir ac mor effeithiol â phosibl. Fe wnaeth gyflwyno argymhellion gyda'r nod o gryfhau sefyllfa'r Comisiynydd ymhellach.

Yn dilyn yr adolygiad hwnnw ac yng nghyswllt ei argymhellion, aeth y Comisiynydd presennol ati i greu cyfres o drefniadau a fyddai'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol iddi heb wanhau na chyfaddawdu ei rôl statudol a'i hannibyniaeth. Ochr yn ochr ag amddiffyn statws annibynnol y swyddfa'n ffyrnig, gwelodd y Comisiynydd gyfle i fanteisio ar arbenigedd a chefnogaeth grŵp amrywiol o bobl ifanc ac oedolion a recriwtiwyd trwy broses agored er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Ffurfiwyd panel ymgynghorol y Comisiynydd a'r panel plant a phobl ifanc yn ystod 2016-17, yn dilyn proses recriwtio agored. Mae'r aelodau'n cynnwys cyfuniad o ddoniau, megis rhieni, cyfreithwyr, cyn-swyddogion y Llywodraeth, ymgynghorwyr cyfryngau ac arweinyddion elusennau. Mae aelodau ein panel pobl ifanc, sy'n 11-18 oed, yn cyfrannu amrywiaeth o brofiad a sgiliau o ran hybu hawliau plant, codi llais mewn cynghorau ysgol, a gweithredu fel llysgenhadon, mentoriaid a hyrwyddwyr. Daw aelodau'r panel o bob cwr o Gymru.

Er bod y ddau banel yn cwrdd ar wahân, mae Cadeiryddion ein panel pobl ifanc yn cymryd eu tro i fod yn gyd-gadeirydd ar banel y Comisiynydd gyda fi, ac rydyn ni wedi gweithio gyda'n gilydd i rannu'r rôl yn effeithiol. Diolch, Malin ac Eve, am eich cyfraniad gwych. Mae gennym ni gynlluniau hefyd i'r paneli ddod at ei gilydd yn flynyddol i gynghori'r Comisiynydd ynghylch ei hadroddiad blynyddol.

Mae Eve a Malin wedi creu fideos yn sôn am waith y panel pobl ifanc i gyd-fynd â'r adroddiad hwn, ac maen nhw ar gael ar wefan y Comisiynydd.

Mae unrhyw strwythur newydd yn cymryd amser i gael ei draed dano ac ennill ei blwyf. Fel aelodau o'r panel rydyn ni'n falch o fod yn ymwneud â'r Comisiynydd a'i thîm i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei chynllun tair blynedd – Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 - 2019. Rydyn ni am ddefnyddio ein profiadau a'n sgiliau i ehangu gorwelion, herio rhagdybiaethau ac ychwanegu gwerth at rôl y Comisiynydd. Rydyn ni am barhau i gydweithio'n agos â'r panel plant a phobl ifanc, gan ddysgu a datblygu ar y cyd i ddyfnhau effaith y trefniadau newydd hyn. Bydd ein cyfarfod ar y cyd yn ein galluogi i feithrin dealltwriaeth a rennir o'n rolau ein hunain ac yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer ein gwaith, er mwyn cydweddu â rôl hanfodol y Comisiynydd yng nghymdeithas sifil Cymru a chryfhau'r rôl honno. Byddwn ni'n cyflawni trwy weithio gyda'r Comisiynydd, ei thîm galluog a chymwys a'n panel plant a phobl ifanc, sy'n arbennig o fedrus.

Rhaid i bob plentyn yng Nghymru gael pob cyfle i fod y gorau gallan nhw fod. Byddwn ni bob amser yn sicrhau bod hynny'n greiddiol i'n panel. Diolch, Sally, am roi'r cyfle hwn i ni eich cefnogi a'ch cynghori yn eich rôl.

**Margaret Provis**
Cadeirydd, panel ymgynghorol y Comisiynydd

# SUT RYDYM NI WEDI CYFLAWNI EIN HYMRWYMIADAU

## Y cynllun tair blynedd

Ar sail yr ymgynghori helaeth â mwy na 7000 o blant, pobl ifanc ac oedolion yn 2015, cyhoeddodd y Comisiynydd ei chynllun strategol tair blynedd yn gynnar yn 2016: 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 – 2019'. Mae'r cynllun tair blynedd hwn yn cynnwys chwe blaenoriaeth:

**NOD 3 BLYNEDD:**
**IECHYD MEDDWL, LLESIANT A MYND I'R AFAEL Â BWLIO**

**NOD 3 BLYNEDD:**
**TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYMDEITHASOL**

**NOD 3 BLYNEDD:**
**CHWARAE A HAMDDEN**

**NOD 3 BLYNEDD:**
**DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A GARTREF**

**NOD 3 BLYNEDD:**
**CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A HYBU'R BROSES O'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

**NOD 3 BLYNEDD:**
**PONTIO I OEDOLAETH**

# CYNLLUN STRATEGOL 3 BLYNEDD 2016-17 CYFLAWNIADAU BLWYDDYN 1

## NOD 3 BLYNEDD: IECHYD MEDDWL, LLESIANT A MYND I'R AFAEL Â BWLIO

**'Stori Sam'**
Fe wnaethon ni ymgynghori â mwy na 2000 o blant a bron 300 o weithwyr proffesiynol ynghylch eu teimladau a'u profiadau o fwlio yng Nghymru.

Cynhaliwyd dwy gyfnewidfa dystiolaeth i gasglu barn gweithwyr proffesiynol.

Ymrwymwyd i gyhoeddi canfyddiadau'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2017 er cof am Gomisiynydd Plant cyntaf Cymru, Peter Clarke.

## NOD 3 BLYNEDD: TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYMDEITHASOL

**Cynllun Llysgenhadon Cymunedol**
Cadwyd mewn cysylltiad â'n grwpiau yng Nghaerdydd, Abertawe a Blaenau Gwent, ac rydym wedi sefydlu grwpiau newydd ym Mhowys, Sir y Fflint a Cheredigion - mae pob un ohonynt yn cynrychioli grwpiau diddordeb arbennig er mwyn sicrhau bod llais rhai o blant fwyaf agored i niwed Cymru yn cael dylanwad uniongyrchol ar ein gwaith.

## NOD 3 BLYNEDD: CHWARAE A HAMDDEN

**Gweithio mewn partneriaeth; Mudiad Meithrin**
Ymrwymwyd i weithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau presenoldeb ar y cyd yn Eisteddfod yr Urdd 2017, er mwyn ymgynghori â phlant, pobl ifanc ac oedolion ynghylch darpariaeth chwarae a hamdden.

Isod ceir dadansoddiad o'n prif gyflawniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ym mlwyddyn 1 o gynllun strategol y Comisiynydd, trwy gyflawni ein **gwaith prosiect.**

## NOD 3 BLYNEDD: DIOGELWCH YN Y GYMUNED, YR YSGOL A GARTREF

**Prosiect Pontio'r Cenedlaethau**
Gweithiwyd gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i greu adnodd i hybu a dathlu perthnasoedd rhwng y cenedlaethau.

Mae'r fideos sy'n cefnogi'r adnodd wedi cael eu gwylio 9000 o weithiau ar Facebook ac mae'r cynllun gwersi wedi cael eu lawrlwytho 117 o weithiau o'r wefan.

**AGENDA**
Fe fuon ni'n gweithio gydag NSPCC Cymru, Prifysgol Caerdydd, Cymorth i Ferched Cymru a Llywodraeth Cymru i greu AGENDA: canllaw pobl ifanc i sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig. Mae'r adnodd – sydd ar gael ar www.agenda.cymru - yn darparu amrywiaeth o syniadau creadigol, a brofwyd mewn ysgolion yng Nghymru, sy'n galluogi pobl ifanc i gael perthnasoedd iach, ac addysg i atal a gwrthweithio bwlio sy'n gysylltiedig â rhywiaeth a homoffobia. Bydd grŵp o fyfyrwyr o ysgol gyfun, sydd wedi mabwysiadu dulliau gweithredu AGENDA, yn cynrychioli Cymru mewn cynhadledd ar gyfranogiad i Gomisiynwyr Plant Ewrop.

## NOD 3 BLYNEDD: CYNYDDU YMWYBYDDIAETH O CCUHP A HYBU'R BROSES O'I FABWYSIADU AR DRAWS GWASANAETHAU CYHOEDDUS

**Cynllun Llysgenhadon Uwchradd**
Lansiwyd y rhaglen yn dilyn peilot. Mae 67 o ysgolion uwchradd ledled Cymru bellach wedi ymgysylltu â'r cynllun

**'Y Ffordd Gywir'**
Gweithiwyd gyda Phrifysgol Abertawe i greu 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru.'

Mawrth 2017: Cyhoeddwyd canllaw, a lawrlwythwyd 314 o weithiau o'r wefan yn ystod yr wythnos gyntaf.

Ymrwymodd sefydliadau oedd yn cynnwys Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru ac Amgueddfa Cymru i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant at gynllunio a darparu gwasanaeth.

## NOD 3 BLYNEDD: PONTIO I OEDOLAETH

**'Breuddwydion Cudd'**
Haf 2016: Cynhaliwyd digwyddiadau i bobl ifanc oedd mewn gofal ac yn gadael gofal.
Hydref 2016: Cynhaliwyd gweithdy gyda phobl ifanc mewn gofal, aelodau'r cynulliad ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.
Medi 2016: Cyflwynwyd arolwg i bob awdurdod lleol.
Mawrth 2017: Lansiwyd yr adroddiad ac ymrwymodd Llywodraeth Cymru £1 filiwn tuag at fwrsariaeth ymadawyr gofal a fydd yn mynd yn uniongyrchol i ymadawyr gofal i'w cefnogi gyda hyfforddiant, addysg, trafnidiaeth a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â nifer o ymrwymiadau pendant eraill gan Lywodraeth Cymru a CLILC.

**'Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl yng Nghymru'**
Mehefin 2016: Cyhoeddwyd adroddiad ar hawliau pobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl ac yn gadael y gofal hwnnw. Derbyniwyd yr holl argymhellion yn llawn gan Brif Weinidog Cymru.
Chwefror 2017: Symudwyd ymlaen gyda phob un o'r pedwar argymhelliad yn ein hadroddiad trwy waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen penodol yn Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i edrych ar leoliadau preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

# UCHAFBWYNTIAU'R GWAITH CRAIDD

## POLISI A MATERION CYHOEDDUS

### Eiriolaeth

Mae ein gwaith dylanwadu pwysig eleni, ynghyd â chwaraewyr allweddol eraill sy'n cynnwys CLILC a Llywodraeth Cymru, wedi arwain at ymrwymiad gan bob awdurdod lleol i weithredu dull eiriolaeth statudol cenedlaethol erbyn Mehefin 2017. Mae'n golygu y bydd plant mwyaf agored i niwed Cymru yn cael cynnig gwasanaeth eiriolydd.

## CYFATHREBU

### Cysylltiadau Cyfryngau

Sicrhawyd sylw cadarnhaol / niwtral i'n gwaith a materion oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc 437 o weithiau.

Cyfryngau cymdeithasol: lansiwyd tudalen Facebook a chynyddwyd nifer y dilynwyr ar Twitter.

## CYFRANOGIAD

### Grŵp Ymgynghorol

Recriwtiwyd a hyfforddwyd aelodau 11-18 oed i ddarparu cyngor a chymorth annibynnol i'r Comisiynydd a'i thîm o staff.

### Senedd Ieuenctid

Ym mis Hydref, ymatebodd Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol i'n galwad am le democrataidd cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc. Cyhoeddodd Elin Jones AC ei bwriad i weithio tuag at sefydlu senedd ieuenctid i Gymru yn gynnar yn y tymor Cynulliad hwn. Mae'r Comisiynydd a pherson ifanc o'i phanel ymgynghorol wedi chwarae rhan weithredol yn y gweithgor a grëwyd gan y Cynulliad i gefnogi'r broses o greu'r corff hwn.

# CYNLLUN BLWYDDYN 1

Isod ceir dadansoddiad o'n prif gyflawniadau dros blant a phobl ifanc ym mlwyddyn 1 o gynllun strategol y Comisiynydd, trwy gyflawni ein **gwaith craidd** (gwaith dydd i ddydd).

## YMCHWILIADAU A CHYNGOR

### Gwaith achosion

Cafodd 528 o achosion unigol eu trin gan ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor annibynnol.

Medrwch ddarllen mwy am waith a llwyddiannau ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor ar dudalen 32 - 35.

## CYLLID, ADNODDAU DYNOL A TG

### Archwilio Mewnol

Mae nifer o adroddiadau annibynnol a gafwyd gan Deloitte wedi rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd a digonolrwydd llawer o agweddau ein prosesau a'n systemau mewnol, sydd yn golygu ein bod yn rheoli'r adnoddau a ddarparwyd ar ein cyfer yn effeithiol.

### Recriwtio

Cefnogwyd pobl ifanc i gyflawni rôl bwysig wrth recriwtio nifer o aelodau newydd o staff, gan gynnwys swyddogion polisi, cyfranogiad ac ymchwiliadau a chyngor.

# Y PEDAIR D

**Mae ein gwaith wedi'i rannu** o dan bedair D Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):

## Darpariaeth

Mae hawl gan blant i gael diwallu eu hanghenion, gan gynnwys tai diogel a chynnes, bwyd, addysg, gofal iechyd, gofal ychwanegol os ydyn nhw'n anabl, mynediad at hamdden, diwylliant a chwarae, a dylai eu teuluoedd dderbyn cymorth ychwanegol os ydyn nhw'n byw mewn tlodi.

## Dweud eu Dweud

Mae gan blant hawl i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw a gwneud dewisiadau. Mae hynny'n cynnwys bod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau unigol, fel eu cynlluniau gofal a chefnogaeth, a dweud eu dweud yn eu hysgolion, eu cymunedau a'u cenedl.

## Diogelu

Mae gan blant hawl i fod yn ddiogel yn eu cartrefi, eu hysgolion a'u cymunedau. Mae hyn yn cynnwys diogelwch ar-lein. Ymhlith y risgiau i ddiogelwch mae bwlio, esgeuluso, cam-drin corfforol a rhywiol a niwed emosiynol.

## Deall eu Hawliau

Dylai llywodraethau sydd wedi ymrwymo i CCUHP sicrhau bod plant ac eraill yn gwybod am CCUHP ac ystyr yr hawliau hynny yn eu bywydau pob dydd. Mae dyletswydd ar y Comisiynydd hefyd i hybu hawliau plant yng Nghymru ac annog eraill, fel ysgolion a chyrff cyhoeddus, i wneud hynny hefyd.

## Dull Gweithredu Hawliau Plant

Nod allweddol yng nghynllun tair blynedd y Comisiynydd i blant a phobl ifanc yw annog y rhai sy'n darparu cefnogaeth a gwasanaethau i blant a phobl ifanc i fabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant. Mae'r pedair D yn crynhoi 42 erthygl CCUHP ac mae 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru' yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu'r pedair D fel dull systematig o sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyrchu pob un o'u hawliau dynol.

Nod ein canllaw, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, yw cynorthwyo cyrff cyhoeddus i wreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer. Fe'i crëwyd gyda chyngor arbenigol gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc ac mae'n annog gwasanaethau cyhoeddus ar draws y wlad i ymrwymo i CCUHP a gwella sut maen nhw'n cynllunio a chyflwyno eu gwasanaethau.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob corff cyhoeddus i gyfrannu at wireddu hawliau plant. Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn cydweddu â'r dyletswyddau hyn, a bydd yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yw:

**Gwreiddio hawliau plant** – sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i gynllunio a darparu gwasanaethau.


**Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

**Grymuso plant** – ychwanegu at alluoedd plant fel unigolion fel eu bod mewn sefyllfa well i fedru manteisio ar hawliau, ac ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau, a'u galw i gyfrif.

**Dweud eu dweud** – gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn.

**Atebolrwydd** – dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Os bydd sefydliad yn defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn ei holl waith, mae hynny'n golygu y bydd yn blaenoriaethu hawliau plant yn ei waith gyda phlant a theuluoedd i wella bywydau plant, a bydd pob plentyn yn cael cyfleoedd i wneud yn fawr o'u doniau a'u potensial. Fy ngweledigaeth i yw y bydd pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod, a gall sefydliadau ledled Cymru gefnogi'r weledigaeth honno trwy fabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu gwaith. Rwy'n falch bod y canllaw wedi cael ymateb cadarnhaol gan sawl corff cyhoeddus o bwys. Byddaf yn adrodd ar sut mae'r canllaw hwn yn cael ei roi ar waith ledled Cymru yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.




Ar y tudalennau nesaf, rwyf wedi amlygu'r materion pwysicaf sy'n codi yng nghyswllt y pedair D, yn ogystal â rhoi rhai enghreifftiau o ddefnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i greu newidiadau cadarnhaol ym mywydau pob dydd plant.

**"Fy ngweledigaeth i yw y bydd pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod"**

# DARPARIAETH

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

### Breuddwydion Cudd

**Y materion allweddol**
Mae Pontio i Oedolaeth yn rhan o'm cynllun gwaith tair blynedd, ac mae blwyddyn gyntaf y gwaith hwn wedi canolbwyntio ar Drefniadau Pontio Ymadawyr Gofal. Yn arbennig, rwyf wedi canolbwyntio ar dai diogel a sefydlog, addysg, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Trwy fy nigwyddiadau ymgynghori gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn 2015 a 2016, fe glywais negeseuon cyson a chryf gan ymadawyr gofal - rheiny sy'n gadael gofael maeth neu gofal preswyl awdurdod lleol - ynghylch y gwahanol lefelau o gefnogaeth maen nhw'n eu derbyn gan eu hawdurdod lleol, eu rhiant corfforaethol. Hefyd fe glywais i'n fanwl am y breuddwydion sydd gan bob un o'r rhain at y dyfodol, a'r cymorth bydden nhw'n hoffi ei dderbyn er mwyn cyflawni eu huchelgais.

Er i mi glywed am lawer o enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol yn darparu opsiynau cefnogaeth arloesol ac ymarferol, a chyrsiau hyfforddi a phrentisiaethau wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer ymadawyr gofal, clywais hefyd sut mae'r darlun yn amrywio ar draws y wlad.




Lansiwyd fy adroddiad Breuddwydion Cudd ar 1 Mawrth 2017, ac mae'n cynnwys ymrwymiadau i ymadawyr gofal Cymru gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru (CLILC). O ganlyniad uniongyrchol i'm hadroddiad, ar 1 Mawrth 2017 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant fwrsariaeth flynyddol o £1 filiwn ar gyfer ymadawyr gofal, a fydd yn mynd yn uniongyrchol i ymadawyr gofal i'w cefnogi wrth gael mynediad i gyrsiau hyfforddi neu addysg bellach, cynorthwyo gyda chostau trafnidiaeth ar gyfer gwaith neu hyfforddiant, neu sicrhau eu bod nhw'n gallu cael mynediad i weithgareddau hamdden a chymdeithasol gyda'u cyfoedion. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio'r opsiynau ar gyfer lleihau tlodi ymhlith ymadawyr gofal, i estyn yr hawl i gael cefnogaeth cynghorydd personol hyd at 25 oed, ac i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth glir, wedi'i diweddaru, ynghylch y pethau gallan nhw hawlio.

Rydw i wedi ymweld a chwrdd â swyddogion arweiniol, aelodau etholedig a phobl ifanc ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Bu pob awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn ymrwymo i weithredu ei argymhellion, yn ogystal ag ymrwymo i roi gwybod i'w plant sy'n derbyn gofal a'u hymadawyr gofal sut byddan nhw'n gweithio tuag at wella tai diogel a sefydlog, cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol.

Trwy weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a CLILC i gytuno ar eu hymrwymiadau unigol i ymadawyr gofal, rwyf wedi gweld ymateb gwirioneddol gadarnhaol i gynnwys fy adroddiad. Bu sawl Aelod Cynulliad hefyd yn mynychu fy nigwyddiad ymgynghori cenedlaethol ym mis Hydref 2016, a chlywed yn uniongyrchol am flaenoriaethau a phrofiadau pobl ifanc o bob rhan o Gymru sydd â phrofiad o ofal, ac arweiniodd at nifer o gwestiynau sesiwn lawn. Mae hyn wedi ei drosi'n newid polisi parhaus ar gyfer y grŵp hwn.

Mae cefnogaeth i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed yn rhywbeth sy'n eithriadol o bwysig ar gyfer ymadawyr gofal, p'un a ydyn nhw mewn addysg neu hyfforddiant neu beidio. Mae llawer o ymadawyr gofal wedi sôn wrthyf fi am bwysigrwydd eu hymgynghorydd personol fel rhywun sy'n glynu wrthyn nhw, ac sy'n gallu eu pwyntio i'r cyfeiriad cywir neu "gadw eu trwyn ar

# Cyhoeddwyd bwrsariaeth o £1M i bobl ifanc sy'n gadael gofal




y maen" i'w helpu i wneud cynnydd i ddatblygu hyfforddiant ffurfiol a sgiliau anffurfiol wrth iddyn nhw symud tuag at annibyniaeth.

Mae ymadawyr gofal hefyd wedi codi pryderon gyda mi droeon ynghylch faint o arian sydd ganddyn nhw i fyw arno ar ôl cyrraedd 18 oed. Crëwyd argraff arnaf fi gan y tlodi cymharol y maen nhw'n byw ynddo a'r ynysu cymdeithasol mae hynny'n ei greu oherwydd bod pobl ifanc yn gorfod colli cyfle i gymdeithasu gyda chyfoedion o ganlyniad i ddiffyg arian.

**Cyfleoedd i'r Dyfodol**

Byddaf yn parhau i gadw mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru a CLILC (ac awdurdodau lleol unigol) i gyflawni nodau tymor hwy yr adroddiad a sicrhau bod ymrwymiad Cymru i ymadawyr gofal yn cael ei gynnal. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad pellach yn sgîl ymgysylltu â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, i rannu'r uchelgeisiau a'r opsiynau sy'n cael eu harchwilio ar draws Cymru i gefnogi ein hymadawyr gofal yn well.

**ARGYMHELLION**

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ei holl ymrwymiadau a nodwyd yn adroddiad Breuddwydion Cudd, gan gynnwys cefnogaeth gyfartal i bawb sy'n gadael gofal, p'un a ydyn nhw wedi dod o ofal maeth neu ofal preswyl, cyllid i ymgynghorwyr personol i gefnogi pob ymadawr gofal hyd at 25 oed, cyhoeddi gwybodaeth glir i ymatebwyr gofal ar gyllid a gwarantu cefnogaeth ariannol i ymadawyr gofal sy'n mynd i addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad rhagweithiol ar ei chynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau hyn i awdurdodau lleol ac yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc eu hunain.

- Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen â'i gwaith i eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu treth y cyngor hyd at 21 oed, i gynorthwyo i liniaru tlodi ymhlith ymadawyr gofal.


# DARPARIAETH

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

### Mabwysiadu a brodydd a chwiorydd

**Y materion allweddol**
Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi mynegi pryderon gyda fy swyddfa oherwydd eu bod yn methu cadw mewn cysylltiad â'u brodyr a'u chwiorydd, p'un a yw hynny trwy gyswllt rheolaidd wyneb yn wyneb neu hyd yn oed dim ond trwy dderbyn llythyron gyda'r newyddion diweddaraf am frodydd a chwiorydd iau. Mae'r mater yma wedi cyrraedd fy ngwasanaeth ymchwiliadau a chyngor annibynnol, ac mae hefyd wedi cael ei godi'n uniongyrchol gyda fi mewn dau ddigwyddiad ymgynghori gwahanol.

Roedd y bobl ifanc bues i'n siarad â nhw yn sylweddoli y gallai fod llawer o wahanol ffactorau'n gysylltiedig â phenderfyniadau am gyswllt parhaus, gan fod y penderfyniadau hynny'n gallu effeithio ar blant y ddau deulu, y rhieni, y mabwysiadwyr a'r gofalwyr maeth. Serch hynny, maen nhw'n teimlo, fel pwynt sylfaenol, y dylen nhw fedru cynnal lefel o gysylltiad â'u brodyr a'u chwiorydd, a bod ganddyn nhw hawl i gadw eu perthnasoedd teuluol. Yn ôl y bobl ifanc, maen nhw'n teimlo fel petaen nhw'n cael eu cosbi os nad yw cyswllt yn cael ei hybu. Perthynas â brodyr a chwiorydd yw'r perthnasoedd cynharaf, ac fel arfer y perthnasoedd mwyaf hirhoedlog ym mywyd unrhyw un, ac ni allwn danbrisio pwysigrwydd eu cynnal.




**"Mae nhw'n teimlo y dylsen nhw fod yn medru cadw mewn cysylltiad gyda'u brodydd a chwiorydd"**

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Rwyf fi wedi codi'r mater yma gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) ac Adoption UK. Rwyf wedi annog un grŵp o bobl ifanc i rannu eu storïau yn uniongyrchol gyda'r NAS. Mae Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi mynegi diddordeb mewn clywed gan bobl ifanc y mae hyn wedi effeithio arnynt, a gwneud cynnydd ar y mater hwn.

**Cyfleoedd i'r dyfodol**
Gallai fod dwy elfen i'r mater hwn; un yw cydnabod hawliau plant i gadw mewn cysylltiad ag aelodau eu teulu a diogelu eu hunaniaeth, a'r llall yw mater hyfforddi ynghylch y dull o gynllunio gofal, er mwyn sicrhau bod siblingiaid eraill yn cael eu hystyried fel mater o drefn. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau am gynllunio gofal a chefnogaeth i blant yn rhoi sylw dyledus i hawliau plant wrth wneud hynny. Ar hyn o bryd nid yw bob amser yn glir sut mae sylw wedi'i roi i hawliau holl blant y teulu.

**ARGYMHELLIAD**
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i sicrhau bod hawliau siblingiaid i gadw mewn cysylltiad yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio gofal mabwysiadu.

## Gofal preswyl

**Y materion allweddol**
Ym mis Mehefin 2016 fe gyhoeddais i adroddiad o'r enw *"Y Gofal Cywir: Hawliau Plant mewn Gofal Preswyl yng Nghymru"*. Yr adroddiad hwn oedd canlyniad gwaith maes ansoddol gyda 34 o blant mewn gofal preswyl a llawer mwy o weithwyr proffesiynol yn y sector hwn.

Roedd yn cynnwys **pedwar argymhelliad**:

1. **Dylai gweithwyr cymdeithasol, eu rheolwyr, swyddogion adolygu annibynnol a staff cartrefi plant** fynd ati'n rhagweithiol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau ynghylch y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu derbyn;

2. **Dylai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ystyried cynnwys, fel rhan o'i fframwaith arolygu ar gyfer cartrefi plant,** asesiad i weld a yw darparwyr yn derbyn pobl ifanc i'w gofal cyn bod cefnogaeth ddigonol a hysbysu asiantaethau lleol wedi digwydd;

3. **Dylai AGGCC, darparwyr,** comisiynwyr a'r heddlu ystyried y ffordd orau o ddiogelu plant ac atal troseddoli diangen;

4. **Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd** o estyn y cynllun 'Pan fydda i'n Barod' i bob plentyn sydd mewn gofal.

Ers lansio'r adroddiad, rwyf wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru, yr Heddlu ac AGGCC er mwyn archwilio ymhellach sut gellir datblygu'r argymhellion hyn i wella profiadau pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant. Mae rhai pryderon yn parhau, ac weithiau ceir anghytuno rhwng awdurdodau lleol, darparwyr gofal a'r heddlu ynghylch sut mae ymateb i bobl ifanc sy'n mynd ar goll neu sy'n ymddwyn yn heriol.

# DARPARIAETH

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Rwyf wedi cael fy nghalonogi gan barodrwydd y tri grŵp i drafod yn agored a cheisio datrys y materion hyn, ond mae angen mwy o ddeialog i ddatblygu ffordd ddiogel, seiliedig ar hawliau o weithio ar faterion fel sut mae atal pobl ifanc rhag mynd i sefyllfaoedd peryglus, a sut mae llwyddo i fynd ati'n ddiogel i osgoi neu liniaru gwrthdaro a thrais. Mae'n hanfodol osgoi troseddoli pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ddiangen.

Rwyf hefyd wedi clywed am bwysau difrifol ar draws y system o ran cael hyd i leoedd gofal maeth a phreswyl arbenigol addas yn agos at y cartref, er mwyn cynnal y cysylltiad ag aelodau'r teulu a lleiafu'r risg y bydd pobl ifanc yn mynd ar goll mewn ardal anghyfarwydd. Yn aml mae angen darpariaeth therapiwtig ac addysgol ar y bobl ifanc hyn, ond mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthyf fi eu bod nhw'n cael trafferth asesu ansawdd ac addasrwydd darpariaeth o'r fath mewn sefyllfaoedd brys lle gall llawer o awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr fod yn cystadlu i sicrhau lleoliad ar gyfer plant agored i niwed sydd yn eu gofal. Mae costau eithriadol uchel darpariaeth o'r fath yn gallu arwain at bwysau i symud plant cyn gynted â phosibl, gan gynyddu nifer y troeon maen nhw'n cael eu symud.

Mewn cyfarfodydd gyda phobl ifanc sydd wedi byw mewn gofal preswyl, rwyf wedi clywed eu pryderon bod rhai darparwyr yn gwneud elw gormodol trwy ofalu amdanynt.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**

Mewn ymateb i'm hadroddiad, **derbyniodd Prif Weinidog Cymru yr holl argymhellion** ac ymrwymo i gyflawni newid ar gyfer y rhai sydd mewn gofal preswyl yng Nghymru.

**Cyfleoedd allweddol**

Rwy'n falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i roi sylw i'r materion a godwyd yn adroddiad *Y Gofal Cywir*. Bydda i'n parhau i gadw mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o ran yr argymhellion yn fy adroddiad.

Ar ben hynny, mae'r grŵp yn gyfrifol am fesur capasiti'r system bresennol a'r defnydd o leoliadau a threfniadau comisiynu. Dylai'r grŵp hwn ddadansoddi a chreu cynlluniau ar gyfer darparu lleoliadau gofal preswyl arbenigol digonol i Gymru. Mae cyfle yma i alinio'r gwaith comisiynu hwn â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gan fod unrhyw faterion capasiti mewn gwahanol fathau o leoliadau o reidrwydd yn cael effaith ar fathau eraill o leoliadau.

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad i'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn 2017-18 ac rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn ymchwilio'n drylwyr i'r canlyniadau i blant, gwerth am arian a lefelau elw gwasanaethau plant yng Nghymru.

Rwyf wedi codi fy mhryderon ynghylch diffyg argaeledd lleoliadau arbenigol addas a'r pryderon mae pobl ifanc wedi'u codi gyda fi ynghylch gwneud elw mewn gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

**ARGYMHELLIAD**

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni yn erbyn cynllun gwaith eu grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd mewn ymateb i'm hargymhellion yn adroddiad Y Gofal Cywir.

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, a chynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau nid-er-elw, fel bod arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gallu cael ei wario ar wella'r canlyniadau i blant yn hytrach na chreu enillion i randdeiliaid.

## Eiriolaeth

**Y materion allweddol**
Mae eiriolaeth wedi bod yn fater allweddol i'r swyddfa hon ers dros ddegawd, ac mae'n dal yn flaenoriaeth barhaus. Mae Eiriolaeth Annibynnol yn fesur diogelu hanfodol ar gyfer plant a'u hawliau, yn arbennig aelodau mwyaf agored i niwed y gymdeithas.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Ym mis Tachwedd 2016 fe gyflwynais i dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol i blant mewn gofal a phlant sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth. Fe wnes i gydnabod y cynnydd a wnaed o ran rhoi Dull Cenedlaethol ar waith sydd wedi'i gostio a'i safoni'n llawn er mwyn sicrhau'r un lefel o ddarpariaeth i blant ledled Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf cryn dipyn o waith gan Lywodraeth Cymru, CLlLC a rhanddeiliaid allweddol eraill, roedd ansicrwydd yn parhau ynghylch gweithredu'r Dull Cenedlaethol yn gyson ar draws Cymru, ac roedd hynny'n ychwanegu at y pryderon nad oedd y ddarpariaeth ar gael yn ôl yr angen ac yn cael cyhoeddusrwydd ym mhob rhan o Gymru.

Ym mis Rhagfyr 2016 fe wnaethon ni, ochr yn ochr â CLlLC, sicrhau ymrwymiad gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i weithredu Dull Cenedlaethol safonedig o ymdrin ag eiriolaeth. Dylai fod gan bob rhanbarth yng Nghymru wasanaeth llawn yn ei le erbyn mis Awst 2017. Fel aelod o'r Grŵp Arweinyddiaeth Uwch (SLG) ar eiriolaeth rwyf innau'n craffu ar weithredu'r dull cytunedig ledled Cymru, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Rwy'n cydnabod y bydd gweithredu'r Dull Cenedlaethol yn llawn yn gam pwysig ar y daith tuag at sicrhau bod eiriolaeth yn cyrraedd pob plentyn a pherson ifanc sydd â hawl iddo, i weithredu fel mesur diogelu sylfaenol a hybu eu hawliau a'r pethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn. Mae'r Cynnig Gweithredol yn arbennig, y galwyd amdano yn adroddiadau *Lleisiau Coll* fy rhagflaenydd, yn cynrychioli newid amlwg yn y dull o ymdrin ag eiriolaeth, ac yn ceisio ymateb i'r pryderon nad oedd eiriolaeth yn hysbys, ac nad oedd dealltwriaeth gyffredinol ohoni.

**Cyfleoedd i'r dyfodol**
Bydda i'n parhau i fonitro'r cynnydd wrth weithredu'r Dull Cenedlaethol trwy'r SLG.

Fodd bynnag, rhan o'r stori yn unig yw sicrhau gweithredu ar draws y 6 rhanbarth yng Nghymru; mae monitro parhaus ar gynnydd a'r nifer sy'n manteisio ar eiriolaeth o ganlyniad i'r Cynnig Gweithredol hefyd yn bwysig i sicrhau bod eiriolaeth yn cyrraedd y rhai sydd â hawl i'w derbyn, a'i bod yn cael ei defnyddio i'w cefnogi i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

**ARGYMHELLIAD**
Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad y Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau arfaethedig yn cyrraedd pawb sydd â hawl i'w derbyn, gan gynyddu tebygolrwydd canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

**"Mae eiriolaeth wedi bod yn fater pwysig i'r swyddfa hon ers degawd ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth"**

# DARPARIAETH

## ADDYSG

### Plant Byddar a mynediad teuluoedd at Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

**Y materion allweddol:**
Mae plant a phobl ifanc Byddar ac aelodau o'u teuluoedd wedi mynegi pryder wrthyf fi ar lu o achlysuron ynghylch diffyg darpariaeth a chefnogaeth i deuluoedd plant Byddar ddysgu Iaith BSL. Rydyn ni wedi cwrdd â rhieni sydd wedi dweud eu bod yn methu cyfathrebu â'u plant Byddar, ac mae'n amlwg bod angen dull gweithredu sydd wedi'i deilwra'n fwy a chefnogaeth fwy penodol ar blant a theuluoedd i ddatblygu a ffynnu.

Mae'n flaenoriaeth sicrhau mynediad i gyfleoedd i ddysgu BSL ar gyfer plant Byddar o bob oed sydd newydd gael diagnosis, eu rhieni ac aelodau eraill o'r teulu. Gall methiant i gyfathrebu'n effeithiol arwain at ymbellhau ac ynysu, ac effeithio'n negyddol ar iechyd emosiynol a meddyliol plant Byddar, eu datblygiad a'u cyfleoedd ehangach mewn bywyd. Mae rhieni wedi sôn am gostau sy'n eu hatal, diffyg gofal plant, a diffyg cefnogaeth neu gyfleoedd dysgu BSL anffurfiol addas fel grwpiau cymorth fel rhwystrau allweddol i gael mynediad i BSL. Byddai cefnogaeth benodol trwy grwpiau dysgu a chwarae i deuluoedd mewn sefyllfaoedd tebyg yn golygu bod modd i'r rhieni ddysgu iaith eu plentyn i fedru cyfathrebu â nhw, a bod plant Byddar ac aelodau eu teuluoedd yn gallu cael cefnogaeth cymheiriaid.

Mae pryderon allweddol yn parhau ynghylch diffyg cefnogaeth mewn addysg brif ffrwd i ymateb i anghenion unigolion a chefnogi eu dysgu, diffyg modelau rôl cadarnhaol i blant Byddar, a diffyg safonau cymharol o ran y cymwysterau iaith sy'n ofynnol i addysgu plant Byddar a chefnogi eu dysgu. Mae'n siomedig nodi mai un awdurdod lleol yn unig yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i Siarter Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, er bod un awdurdod lleol arall wedi gwneud cryn dipyn o waith ac wedi arddangos ymrwymiad i egwyddorion y Siarter.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod BSL fel iaith ynddi ei hun, mae adnoddau annigonol ar gyfer y ddarpariaeth i sicrhau bod plant sy'n cyfathrebu trwy BSL yn cael cefnogaeth yn yr ysgol gan weithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau, profiad a hyder digonol wrth ddefnyddio BSL.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu:**
Rwyf fi wedi cwrdd â phlant a phobl ifanc Byddar ac aelodau o'u teuluoedd ac wedi clywed am eu barn a'u profiadau o ran mynediad i BSL a chefnogaeth mewn addysg brif ffrwd. Yn dilyn hynny galwais am fwy o gefnogaeth wladol i anghenion cyfathrebu plant Byddar a'u teuluoedd pan oedd BBC Cymru Wales yn rhoi sylw i'r mater hwn, a oedd yn rhan o'm tystiolaeth i Adolygiad Seneddol Cymru Gyfan o Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Cyfleoedd a heriau i'r dyfodol:**
Bydd deddfwriaeth newydd ac sydd i ddod yng Nghymru, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (y Bil ADY) yn darparu cyfleoedd i ymateb yn well i anghenion plant a phobl ifanc anabl trwy wneud gwasanaethau cyhoeddus integredig, ataliol a pherson-ganolog yn ofynnol. Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n Fyddar neu â nam ar eu clyw gael ei halinio i gyd-fynd â dyheadau'r rhaglen ddeddfwriaethol hon, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i gefnogaeth o ansawdd er mwyn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cyflawni.

**ARGYMHELLION**
Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau cefnogaeth wladol briodol ar gyfer anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc sy'n Fyddar neu â nam ar eu clyw a'u teuluoedd, gan gynnwys cyfleoedd dysgu BSL hygyrch a fforddiadwy ar amrywiaeth o lefelau a chyflogi staff mewn ysgolion sy'n cyfathrebu'n rhugl mewn BSL, er mwyn ymateb i anghenion unigolion.

# DARPARIAETH IECHYD

## Iechyd Meddwl

**Y materion allweddol**
Amlygodd fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16 hyd annerbyniol rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau clinigol, datblygiad annigonol gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac ataliol, ac anhawster parhaus o ran darparu mynediad amserol i therapïau seicolegol. Er fy mod i'n croesawu'r targedau newydd, uchelgeisiol ar gyfer amserau aros CAMHS a gostyngiad calonogol yn amserau aros CAMHS mewn rhai ardaloedd, nid yw'r cynnydd tuag at dargedau amserau aros wedi bod yn gyfartal mewn gwahanol rannau o Gymru, ac o ganlyniad mae plant a phobl ifanc wedi cael mynediad anghyfartal i gefnogaeth iechyd meddwl. Wrth i ni weld gwelliant yn dechrau o ran rhestrau aros, mae'n hanfodol bod gwaith yn digwydd i ddatblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth, timau cymunedol a gofal acíwt ymhellach.

Mae cysylltiadau gwell i'w creu o hyd rhwng y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) a'r ffocws ar iechyd a llesiant wrth ddiwygio'r cwricwlwm, er mwyn hybu a chynllunio ar gyfer dulliau gweithredu ysgol gyfan, seiliedig ar dystiolaeth yng nghyswllt iechyd meddwl, llesiant a pherthnasoedd iach. Fe hoffwn i weld pobl ifanc yn ymwneud yn fwy systematig â datblygu a gwerthuso gwasanaethau. Mae Rhaglen T4CYP bellach yn ei blwyddyn olaf o dair, ac nid oes cyllid pellach wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu:**
Yn ystod 2016-17 rwyf wedi dal ati i fonitro cynnydd a rhwystrau parhaus sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cael gwasanaethau iechyd meddwl addas, a hynny trwy ymgysylltu â phlant a theuluoedd, gweithwyr proffesiynol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, Rhaglen T4CYP ac Adolygiad Seneddol Cymru Gyfan o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rwy'n aelod arsylwi o'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar gyfer Rhaglen T4CYP.

Mae fy nhîm wedi cwrdd yn rheolaidd â Rheolwr Rhaglen T4CYP a Cymru Ifanc i drafod cynnwys pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw yn y Rhaglen T4CYP.

**Cyfleoedd a heriau i'r dyfodol:**
Mae gwaith i'w wneud o hyd yng nghyswllt gwella'r amserau aros am wasanaethau clinigol er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, sicrhau nad yw'r ffocws ar ymyrraeth gynnar, ataliaeth a gofal sylfaenol yn cael ei wanhau, a bod gwasanaethau iechyd meddwl ar bob lefel yn derbyn adnoddau digonol.

Rhaid i ni fanteisio ar y cyfle sydd wedi dod i'n rhan yn sgîl y rhaglen T4CYP a'r gwaith cyfredol i ddiwygio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau rhwng addysg a iechyd meddwl a llesiant yn cael eu cryfhau. Mae'n hanfodol bod y rhaglen T4CYP yn sicrhau bod byrddau iechyd yn crynhoi tystiolaeth ynghylch a yw profiadau plant o wasanaethau iechyd meddwl yn gwella, er mwyn datblygu sylfaen leol a chenedlaethol o dystiolaeth. Dylai plant a phobl ifanc gael eu galluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r rhaglen a'r gwaith y mae'n ei ddatblygu. Mae'r newid systematig sy'n ofynnol i sicrhau darpariaeth briodol sy'n hybu llesiant, yn atal salwch meddwl ac yn darparu'r gwasanaethau cywir mewn modd amserol i'r rhai sydd angen ymyrraeth gynnar neu driniaeth glinigol yn galw am fuddsoddiad ac ymdrech barhaus ar y cyd. Bydd angen i Lywodraeth Cymru barhau i ddarparu cyllid i helpu'r gwasanaeth i gyflawni newid trawsffurfiannol.

**ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU A'R GIG:**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y rhaglen T4CYP yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon, nes bod modd eu bodloni bod gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant digonol ar gael i blant yng Nghymru yn ôl yr angen ac yn y mannau lle mae eu hangen. Mae angen i effaith ac allbynnau'r Rhaglen fod yn gynaliadwy i'w cyflawni ar lefel leol, ac mae angen i waith y Rhaglen fod wedi'i wreiddio'n ddigonol i'r byrddau cynllunio rhanbarthol fedru cynnal cynnydd ac ansawdd y ddarpariaeth i holl blant Cymru.

# DARPARIAETH

## IECHYD

### Eiriolaeth Iechyd

**Y materion allweddol:**
Er gwaethaf y cynnydd sy'n cael ei wneud yng nghyswllt Dull Cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol i blant o dan Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, nid yw'n eglur ar hyn o bryd pa mor gyson yw Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG wrth fynd ati i ddarparu eiriolaeth i bobl ifanc o dan 18 oed sydd am gwyno ynghylch y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae disgwyl ar hyn o bryd i Gynghorau Iechyd Cymunedol ddarparu eiriolaeth i rai dros 18 oed, ac eto, mae peth tystiolaeth i awgrymu y bydd rhai ohonynt yn derbyn atgyfeiriadau gan bobl ifanc o dan 18. Yn 2011, eglurodd y Gweinidog Iechyd blaenorol fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol ddarparu eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sydd am wneud cwyn o dan Adran 187(2a – 2c) o Ddeddf GIG (Cymru) (2006), ond mae angen eglurhad pellach ynghylch beth gall plant a phobl ifanc ei ddisgwyl nawr mewn perthynas ag eiriolaeth gysylltiedig â iechyd y tu allan i eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu:**
Fe godais i fater eiriolaeth gysylltiedig â iechyd i bobl ifanc o dan 18 gyda Chadeirydd Panel Adolygu Adolygiad Seneddol Cymru Gyfan o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fe dynnais i sylw at y mater hwn hefyd trwy fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Iechyd Cymunedol, ac fe ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ym mis Mawrth 2017 i geisio eglurhad ynghylch beth dylai plant a phobl ifanc ei ddisgwyl a'i asesiad o'r lefel weithredu gyfredol. .

**"Mae trafnidiaeth i bobl ifanc yn fater sy'n aml yn cael ei godi gyda'm swyddfa"**

**Cyfleoedd a heriau i'r dyfodol:**
Mae cyfle amserol i ddarparu eglurhad ynghylch eiriolaeth gysylltiedig â iechyd i blant a phobl ifanc o dan 18 yn y fersiwn hwylus i blant o'r daflen gwybodaeth i gleifion, 'Unioni'r Sefyllfa' / 'Putting Things Right' sydd i'w datblygu. Ar hyn o bryd mae'r daflen hon yn cyfeirio at rôl y Cynghorau Iechyd Cymunedol yn cefnogi'r rhai sydd am fynegi pryderon.

**ARGYMHELLIAD**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eiriolaeth gysylltiedig â iechyd ar gael i bobl ifanc o dan 18 oed, ac yn hygyrch i bawb sydd ei hangen.

# DARPARIAETH

## TRAFNIDIAETH

### Costau teithio ar y bws i bobl ifanc

**Y mater allweddol**
Mae trafnidiaeth i bobl ifanc yn fater sy'n aml yn cael ei godi gyda'm swyddfa; yn arbennig yng nghyswllt cael mynediad i addysg, ond hefyd fel pwynt cyffredinol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi clywed am anawsterau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig yn arbennig. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthyf fi eu bod nhw'n gwario'r awr gyntaf neu fwy o'u tâl am swydd isafswm cyflog ar gostau cludiant yn unig.

Mae pobl ifanc o dan 17 yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus gan eu bod yn methu gyrru, a hyd yn oed ar ôl cyrraedd 17 gall costau dysgu gyrru a chynnal car, gyda'r costau rhedeg ac yswirio, fod yn rhy ddrud i'w fforddio.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Yn ystod eleni fe ges i wybod bod y cynllun teithio am bris gostyngol ar y bws, FyNhocynTeithio (MyTravelPass) i bobl ifanc 16-18 oed yn mynd i ddod i ben. Fe ofynnais i am gael gweld yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer y penderfyniad hwn; nid oedd CRIA yn ei le pan wnaed y penderfyniad, ac yn ôl y CRIA a luniwyd ar ôl derbyn fy nghais, nid oedd y cynllun erioed wedi'i fwriadu i barhau ar ôl Mawrth 2017, a'r awgrym oedd na fyddai effaith negyddol ar blant o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Fe ysgrifennais i at yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Seilwaith i fynegi fy mhryderon bod y cynllun hwn yn dod i ben a'r diffyg ystyriaeth i hawliau a phrofiadau plant.

**Cyfleoedd i'r dyfodol**
Cafodd y cynllun FyNhocynTeithio ei adfer am gyfnod pontio tra bod opsiynau eraill yn destun sylw. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r opsiynau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Nid oes sail resymegol dros ddod â'r hawl i dderbyn pris gostyngol i ben yn 16 oed pan fo oed plentyndod wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol fel 0-18, ac mae'r mwyafrif o bobl ifanc 16 - 18 oed mewn addysg neu hyfforddiant.

**ARGYMHELLIAD**
Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymhorthdal cludiant cyhoeddus i blant ar gael hyd at 18 oed, heb newid cymhwystra yn 16 oed.

## Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol

### Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)

**Y materion allweddol**
Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd trwy gyflwyno'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Bil ADY) i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Bil ADY yn ceisio cyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r nod yw cryfhau cydlyniant y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Rwyf wedi croesawu egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rwy'n falch bod y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Gymraeg wedi ymrwymo £20m i gefnogi'r rhaglen fydd yn trawsffurfio'r system. Serch hynny, rwy'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys dyletswydd i'r cyrff perthnasol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ar wyneb y Bil. Rwyf hefyd yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig cryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru i gynnwys cyrff iechyd o fewn ei gwmpas.

# DARPARIAETH

## BIL ANGHENION DYSGU

**Beth rydyn ni wedi'i wneud**
Mae ymateb i anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc wedi parhau'n faes ffocws sy'n flaenoriaeth. Rwyf wedi cyflwyno nifer o ymatebion i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'r broses graffu ddeddfwriaethol ac mae fy Swyddfa'n dal yn aelod o nifer o grwpiau strategol sy'n dylanwadu ar ddiwygio'r cwricwlwm.

Yn ystod 2016 fe fu Comisiynydd y Gymraeg a minnau'n ymateb i bryderon rhieni ynghylch argaeledd darpariaeth Gymraeg ar gyfer ADY, trwy gynnal ymarferiad casglu gwybodaeth oedd yn archwilio i ba raddau mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi llwyddo i ymateb i'r galw am addysg Gymraeg. Dosbarthwyd holiadur byr i Gyfarwyddwyr Addysg pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a chanfu ein dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg fod y gefnogaeth i ddisgyblion ag ADY mewn ysgolion Cymraeg yn gyffredinol anfoddhaol. Roedd diffyg offer asesu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a diffyg staff arbenigol oedd yn siarad Cymraeg, megis Seicolegwyr Addysg, ac o ganlyniad roedd plant a phobl ifanc oedd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hasesu ac yn derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Saesneg. Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos yn glir bod mwyafrif yr awdurdodau lleol yn methu ymateb yn llawn yn Gymraeg i'r amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol oedd dan sylw. Yn arbennig, roedd bylchau yn y ddarpariaeth o ran awtistiaeth, y rhai â chyflyrau arbennig o ddifrifol, gwasanaethau iaith a lleferydd, a phrinder staff yn yr amrywiol wasanaethau a thimau sy'n cefnogi ysgolion, gan gynnwys cefnogi ymddygiad. Soniodd nifer o awdurdodau am anhawster recriwtio staff arbenigol a chefnogi sy'n medru'r Gymraeg. Nid oedd yn syndod bod yr awdurdodau lleol lle roedd Cymraeg yn cael ei siarad yn fwy cyffredinol yn llai tebygol o gyfeirio at hyn fel problem, ond roedd hynny'n dibynnu i ryw raddau ar natur y gefnogaeth arbenigol oedd yn ofynnol. Dywedodd rhai awdurdodau nad ydynt yn cynnal asesiadau iaith a lleferydd yn Gymraeg oherwydd nad yw athrawon yn teimlo bod ganddynt y sgiliau na'r cymwysterau i wneud hynny. Rwyf wedi codi'r materion hyn yn fy ymatebion i ymchwiliad cam cyntaf y Pwyllgor PPIA i'r Bil, ac mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar weithredu'r Bil ADY.

**Cyfleoedd i'r dyfodol**
Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i sicrhau bod cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu gwella gan y Bil. Wrth i Gymru symud at ei weithredu, bydd fy Swyddfa'n parhau i sicrhau bod y rhwymedigaethau a nodwyd yn CCUHP yn cael eu cynnal yn benodol yn y ddeddfwriaeth, y Côd Ymarfer a'r cwricwlwm newydd.

**ARGYMHELLION**

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd sy'n gofyn bod pob corff perthnasol o dan y Ddeddf yn rhoi sylw dyledus i CCUHP a CCUHPA, a rhoi'r ddyletswydd honno ar wyneb y Bil.

- Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru trwy estyn ei gwmpas i gynnwys cyrff iechyd.

# DARPARIAETH
## Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

**Y materion allweddol**
Mae plentyndod cynnar yn gyfnod hollbwysig ar gyfer sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu, ac mae CCUHP yn adlewyrchu hynny'n amlwg. Rwy'n ymwybodol o lawer o ddatblygiadau yn yr agenda Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru, gan gynnwys Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Rwy'n croesawu'r bwriad i ehangu gofal plant di-dâl i 30 awr yr wythnos yn achos mwyafrif y plant 3 a 4 oed. Bydd hyn yn gymorth mawr i deuluoedd sy'n gweithio ymdopi â chostau gofal plant, o gofio bod rhieni mwyafrif y plant sy'n byw mewn tlodi yn gweithio. Serch hynny, bydd yn hanfodol bod y ddarpariaeth o ansawdd uchel, a hefyd yn gallu diwallu anghenion y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd angen darpariaeth Gymraeg er mwyn bod o fudd i ansawdd bywyd a datblygiad plant.

Fodd bynnag, rwy'n pryderu y gallai eithrio plant o aelwydydd lle nad oes gwaith estyn y bwlch ymhellach rhwng y grŵp hwn a'r rhai y mae eu rhieni'n gweithio, o ran parodrwydd i fynd i'r ysgol. Er bod y ddarpariaeth gofal plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn diwallu peth o'r angen hwn, nid yw pob plentyn i rieni sydd heb waith yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Dylai gofal plant i bawb fod yn ganolog i'n dyheadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac er fy mod, o ran egwyddor, yn falch o weld y datblygiadau hyd yma, rhaid i ni gydnabod y sylfaen gynyddol o dystiolaeth sy'n cefnogi datblygiad system i gael gofal plant ac addysg gynnar fforddiadwy, o ansawdd da. Mae angen i ni gydnabod cyfraniad posibl hyn oddi mewn i becyn integredig o ofal plant ac addysg gynnar o safon. Mae llesiant plant ifanc iawn yn dibynnu ar gael mynediad i wasanaethau o ansawdd da ym meysydd iechyd, addysg a gofal plant. Mae Pwyllgor y CU wedi cyfeirio yn y gorffennol at y ffaith bod plentyndod cynnar, ar adegau, wedi bod yn flaenoriaeth isel wrth ddatblygu gwasanaethau o safon. Ar y pwynt hwn, cyfeiriaf at y casgliadau a gafwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Gofrestru, Rheoleiddio Ac Arolygu Gofal Plant Ac Addysg Gynnar (2014), sef y bydd y gwasanaeth a ddarparwn yn gryfach po ehangaf yw ein darlun o anghenion ein plant. Rhaid sicrhau capasiti yn awr i ganiatáu hynny.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Mae gennym statws arsylwi ar y Grŵp Cyfeirio Arbenigol sy'n gysylltiedig â Grŵp Cynnig Gofal Plant Cymru, ac rydym wedi mynegi pryderon y cyfeiriwn atynt uchod yn y cyfarfodydd Gweinidogol, a phob tro y cawn gyfle, gan gynnwys wrth ymddangos gerbron Pwyllgorau.

**Cyfleoedd i'r dyfodol**
Rwy'n ymwybodol o bryderon ymhlith y gweithlu gofal plant presennol yng Nghymru ynghylch capasiti a chynaliadwyedd, gan gynnwys yn y ddarpariaeth Gymraeg. Bellach mae'r chwe awdurdod lleol a fydd yn profi'r cynnig yn eu hardaloedd peilot, fel 'gweithredwyr cynnar', wedi cael eu nodi. Rhaid i ni ddefnyddio'r cyfle hwn i'n cynorthwyo drwy ddarparu gwybodaeth ynghylch capasiti a chynaliadwyedd y sector wrth i ni werthuso effaith, cwmpas a hygyrchedd yn drylwyr.

**ARGYMHELLIAD:**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau trwy beilot y cynnig gofal plant ac unrhyw gynllun dilynol nad yw plant rhieni sydd ddim yn gweithio yn colli cyfle o ystyried y gofal plant cynyddol sy'n cael ei gynnig i blant rhieni sy'n gweithio.

# DARPARIAETH

## TLODI

**Y materion allweddol**
Fwy na thebyg, Tlodi Plant yw'r her fwyaf mae Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu. Er fy mod i'n croesawu gostyngiad bychan iawn yn ffigurau tlodi plant Cymru eleni, mae nifer o heriau sy'n atal cynnydd pellach yn y maes hwn. Mae plant yn wynebu effaith barhaus mesurau cyni ar incwm eu rhieni a thoriadau i wasanaethau a fyddai'n draddodiadol wedi eu helpu, fel llyfrgelloedd a chanolfannau ieuenctid. Mae rhai toriadau budd-dal a chredydau treth newydd ddod i rym sy'n cael effaith anghymesur ar blant, yn enwedig y rhai sydd mewn teuluoedd un rhiant a rhai sydd â mwy na dau blentyn.

Rydyn ni'n dal i aros i weld effaith Brexit ym Mhrydain, ond Cymru yw'r wlad yn y Deyrnas Unedig sydd wedi elwa fwyaf o arian yr UE y pen. Mae llawer o'r cyllid hwn wedi cael ei dargedu i gefnogi cymunedau difreintiedig ledled Cymru, ac mae'n bwysig nad yw Cymru ar ei cholled yn y dyfodol pan ddyrannir cyllid yn lle'r cronfeydd hyn o'r UE.

Ar ben hynny, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn ystod y flwyddyn na fydd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau. Nod Plant yn Gyntaf yw sefydlu parthau plant mewn ardaloedd peilot i brofi ffyrdd newydd o weithio, ond mae'n bwysig bod modd cynnal manteision prosiectau mwyaf llwyddiannus Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Cadarnhaodd y Strategaeth Tlodi Plant diwygiedig ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'w huchelgais o ddileu tlodi plant erbyn 2020.  Ond daeth yn eglur adeg y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016 na fyddai'r uchelgais honno'n cael ei chyflawni.

Cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn eu Sylwadau Terfynol ar gyfer parti gwladol y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2016, a nodi y dylai pob rhan o'r parti gwladol "Sefydlu mecanweithiau atebolrwydd clir ar gyfer dileu tlodi plant, gan gynnwys trwy ailsefydlu targedau cadarn, gyda therfyn amser pendant a dangosyddion mesuradwy, a pharhau i fonitro lleihau tlodi plant yn rheolaidd ac adrodd amdano".

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Mae fy swyddfa i yn aelod o Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, ac mae'r Rhwydwaith yn dal i fynegi pryderon ynghylch diffyg amlygrwydd tlodi plant ar draws Llywodraeth Cymru a'r ffaith eu bod wedi cefnu ar y targedau tlodi heb fod darpariaeth arall yn ei lle.

Rwyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant fy sicrhau bod ymatebion i dlodi yn cael eu hystyried a'u cydlynu ar draws Llywodraeth Cymru. Os na fydd hynny'n digwydd, rwy'n dal i bryderu y bydd effaith cyni a Brexit yn parhau i gael effaith anghymesur ar blant Cymru, ac y byddan nhw o dan anfantais wrth geisio bod y gorau gallan nhw fod.

**Cyfleoedd i'r dyfodol**
Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd newydd eu sefydlu yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn dod ynghyd i gynllunio a darparu gwasanaethau ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae cyfle gwirioneddol i'r BGCau fynd i'r afael â'r materion mwy yn eu hardal sydd o bosib "yn rhy fawr" i un asiantaeth fynd i'r afael â nhw. Byddai hynny'n cynnwys tlodi, ond hefyd feysydd eraill sy'n destun pryder gwirioneddol, megis iechyd meddwl, na ellir parhau i'w ystyried fel dim mwy na "mater iechyd".

Mae fy nghynllun gwaith ar gyfer 2017-18 yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi canllaw ar gyfer BGCau a chyrff cyhoeddus eraill i wreiddio hawliau plant (gan gynnwys eu hawl i safon ddigonol o fyw) yn eu gwaith ar asesiadau a chynlluniau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r broses asesu a chynllunio, i helpu i ffurfio darpariaeth gwasanaethau yn eu hardal.

**ARGYMHELLIAD**
Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio popeth o fewn ei gallu i liniaru tlodi plant, gan gynnwys defnyddio pwerau newydd i godi trethi. Dylai gefnogi awdurdodau lleol i gynnig mwy o gymorth mewn meysydd penodol y gwyddys eu bod yn rhoi pwysau ar y teuluoedd tlotaf, gan gynnwys teimlo'n llwglyd yn ystod y gwyliau, costau gwisg ysgol a biliau tanwydd domestig uchel.

# DIOGELU

## ADDYSG

### Dulliau Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ym myd Addysg

**Y materion allweddol**
Mae ysgolion yng Nghymru sy'n defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant wedi rhoi gwybod i mi bod hynny wedi cyflawni rôl allweddol wrth ddiogelu disgyblion. Mae datblygu dealltwriaeth plant o'u hawliau, ac yn arbennig Erthygl 19, wedi arwain yn uniongyrchol at ddatgeliadau amddiffyn plant ac wedi galluogi ysgolion i ddelio'n effeithiol gyda materion diogelu a sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Fodd bynnag, mae llawer o leoliadau addysg yng Nghymru heb ddatblygu dealltwriaeth o hawliau plant eto ar draws eu cymuned, ac ar hyn o bryd mae rhy ychydig o ddisgyblion yng Nghymru yn cael eu diogelu trwy'r dull gweithredu hwn.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Mae fy swyddfa wedi gweithio gyda'n rhwydwaith o ysgolion Llysgenhadon cynradd ac uwchradd i goladu enghreifftiau o roi Dulliau Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar waith yn effeithiol. Gan ddefnyddio egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant a ddatblygwyd gan fy swyddfa ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru (gyda chyngor gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc), rwyf wedi gweithio gyda phlant a gweithwyr proffesiynol i ddatblygu fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant mewn lleoliadau addysg. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Rwyf hefyd wedi hybu effaith lesol addysg hawliau plant trwy'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, gan gwrdd ag ysgolion arloesi a rhoi cyflwyniad i'r gweithgor ar gyfer Maes Iechyd a Llesiant Dysgu a Phrofiad a'r Grŵp Cynghori Arbenigol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Donaldson.

**Cyfleoedd i'r Dyfodol**




Bydd dogfen gyfarwyddyd 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru' yn cael ei chyhoeddi ym mis Mai 2017, ac yn cael ei darparu i bob ysgol yng Nghymru fel adnodd am ddim. Bydd yn cael ei llunio i roi arweiniad ymarferol i ysgolion a galluogi gweithwyr proffesiynol i ddysgu o arfer lleoliadau sydd wedi rhoi Dulliau Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar waith yn llwyddiannus.

Byddaf yn parhau i hyrwyddo'r arweiniad hwn i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion, a dadlau o blaid gwreiddio Dulliau Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru er mwyn diogelu anghenion tymor hir a lles plant a phobl ifanc. Gallai system addysg seiliedig ar hawliau plant arwain y byd, a byddai'n gam pwysig iawn ymlaen yn ymrwymiad Cymru i weithredu hawliau dynol plant o dan CCUHP.

**ARGYMHELLIAD**
Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion tymor hir a lles plant yn cael eu diogelu trwy sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei seilio'n amlwg ar Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant a bod y deilliannau dysgu'n cefnogi pob plentyn i wybod beth yw eu hawliau o dan CCUHP.

# DIOGELU

## ADDYSG

### Addysg Perthnasoedd Iach

**Y materion allweddol**
Er bod mwyafrif y plant a'r bobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn fy ymgynghoriad, '*What Next | Beth Nesa*' yn 2015 wedi dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn eu cymunedau, roeddwn i'n siomedig i ddysgu bod lleiafrif sylweddol yn dweud nad oeddent. Fe ddywedson nhw wrthyf fi fod bwlio, risgiau 'pobl eraill' a theimlo'n unig yn faterion pwysig oedd yn effeithio arnyn nhw. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos plant a phobl ifanc o gefndiroedd llai cefnog. Roedd profiadau o gael eu taro, eu cau allan yn gymdeithasol, a chael plant a phobl ifanc eraill yn galw enwau arnyn nhw yn brofiadau cymharol gyffredin, yn arbennig ymhlith plant cynradd. Er nad yw canlyniadau 'Beth Nesa' yn cynrychioli dolen achosol uniongyrchol, roedd tuedd i bobl ifanc oedd wedi cael eu bwlio feddu ar lefel is o lesiant emosiynol.

Yn 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016-19', fe wnes i amlinellu fy mwriadau i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus gyflawni cynnydd sylweddol i sicrhau bod profiadau cyfoes plant yn cael eu deall yn well, ac er mwyn i ysgolion atal bwlio a mynd i'r afael ag ef yn fwy effeithiol. Mae cyfle pwysig yn bodoli i symud ymlaen o ran sut mae Cymru'n ymdrin â bwlio yn yr ysgol yn sgîl yr adolygiad cyfredol o'r canllawiau cenedlaethol ar fwlio, 'Parchu Eraill', a'r adolygiad mwy cyffredinol o'r cwricwlwm a hyfforddiant athrawon. Yn y cyd-destun hwn, roedd yn siom nodi bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu chwalu Grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio Cymru Gyfan ym mis Mehefin 2016.

Er mwyn atal bwlio, mae angen i blant gael cyfle i ddysgu am berthnasoedd iach a'u profi yn ifanc. Cyflwynodd Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn nifer o argymhellion yng nghyswllt hybu perthnasoedd iach. Un o'r



negeseuon rwy'n ei chael yn fwyaf cyson gan fyfyrwyr uwchradd ledled Cymru yw'r angen am addysg gryfach ynghylch rhyw a pherthnasoedd, gyda mwy o bwyslais ar berthnasoedd iach.

Yn ddiweddar mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg wedi cyhoeddi bod Panel Arbenigol Perthnasoedd Iach yn cael ei sefydlu i ddylanwadu ar y cwricwlwm newydd, ac mae fy swyddfa i'n ymwneud â'r gwaith hwn.

**Beth rydyn ni wedi'i wneud**

Yn ystod 2016, bu fy Swyddfa'n cydweithio â Phrifysgol Caerdydd, Cymorth i Ferched Cymru a'r NSPCC i ddatblygu *AGENDA: Canllaw pobl ifanc i sicrhau bod perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig.* Adnodd addysgol ar-lein yw AGENDA a grëwyd gan bobl ifanc i gefnogi pobl ifanc i hybu perthnasoedd iach a mynd ati'n greadigol i herio anghydraddoldebau rhywedd, normau rhywedd gormesol, trais yn erbyn merched a menywod, homoffobia a thrawsffobia.

Yn ystod tymor hydref 2016, fe wnes i lansio Tasg Arbennig i Lysgenhadon Gwych o'r enw Stori Sam. Roedd y dasg arbennig hon yn gofyn i'r disgyblion rannu eu teimladau a'u meddyliau ynghylch bwlio. Bu dros 2000 o blant a phobl ifanc yn rhannu eu profiadau gyda ni, yn ogystal â bron 300 o weithwyr proffesiynol.

Gwelir gwahaniaeth fel mater allweddol i blant yng nghyd-destun bwlio. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â golwg gorfforol, tlodi, anabledd, ethnigrwydd, stereoteipiau rhywedd a dewis o weithgareddau.

Mae seiberfwlio yn fater allweddol, yn arbennig yn yr ysgol uwchradd, ac ni ddylid ei weld fel rhywbeth sydd wedi'i ynysu oddi wrth fwlio corfforol neu eiriol. Dywedodd plant wrthyf i hefyd eu bod yn aml yn teimlo'n ansicr ynghylch beth i'w wneud wrth weld rhywun yn cael ei fwlio, ac fe sonion nhw am bwysigrwydd gweithredu uniongyrchol gan staff yr ysgol ac oedolion roedden nhw'n ymddiried ynddyn nhw i ymyrryd.




**Cyfleoedd i'r Dyfodol**

Bydda i'n parhau i weithio gydag ysgolion a'r llywodraeth genedlaethol a lleol i sicrhau bod y negeseuon a rannwyd gyda'm swyddfa trwy Stori Sam yn cael gwrandawiad ac yn cael eu rhoi ar waith.

Bydd rhoi cwricwlwm seiliedig ar Hawliau Plant ar waith, gan gynnwys sicrhau bod plant yn dysgu am yr hawl i fod yn ddiogel yn yr ysgol, ac yn profi hynny, yn helpu. Mae cyfleoedd pwysig yn bodoli i osod dysgu a phrofiadau plant mewn fframwaith hawliau dynol, gan gynnwys egwyddorion cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu, hawliau i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a'r hawl i breifatrwydd, ar-lein yn ogystal ag oddi ar-lein. Er enghraifft, byddai'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a ddatblygwyd yn ddiweddar yn cael ei gryfhau petai cysylltiadau mwy penodol â'r hawliau hyn sydd gan blant ar draws y deunyddiau.

**ARGYMHELLION**

- Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Canllawiau 'Parchu Eraill' roi sylw i brofiadau uniongyrchol a safbwyntiau plant a phobl ifanc ynghylch effaith bwlio ac effeithiolrwydd polisïau ac arferion cyfredol. Dylai nodi'n eglur sut mae'n bwriadu atal a mynd i'r afael â bwlio ar lefel genedlaethol, ac amlinellu sut bydd y gwaith hwn yn dylanwadu ar ddiwygio'r cwricwlwm a hyfforddi athrawon.

- Dylai Llywodraeth Cymru wneud addysg hawliau dynol plant yn agwedd orfodol ar y cwricwlwm. Dylai rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm wreiddio dysgu ynghylch Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar draws pob rhan o'r cwricwlwm newydd. Dylai hynny gynnwys cysylltu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol â hawliau plant a chefnogi plant a phobl ifanc i ddeall bod ganddyn nhw'r un hawliau ar-lein ag oddi ar-lein.

# DIOGELU

## ADDYSG

### Dewis Addysgu Gartref

**Y materion allweddol**
Mae pryderon wedi dod i sylw y swyddfa o ganlyniad i Adolygiad Ymarfer Plant ynghylch sefyllfa drasig yn ymwneud â phlentyn a addysgwyd gartref lle bu'r plentyn farw a lle cafwyd wedi hynny ei fod i raddau helaeth wedi diflannu o olwg y gwasanaethau cyffredinol a statudol. Rwyf hefyd wedi clywed gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol o wahanol sectorau, yn mynegi eu pryderon diogelu ynghylch plant sy'n cael eu haddysgu gartref, heb fod unrhyw wasanaethau statudol yn gwybod amdanynt. Er fy mod i'n cydnabod nad yw dewis addysgu plant gartref yn fater diogelu ynddo'i hun, rwyf eisoes wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau'r gofynion i rieni gofrestru fel rhai sy'n dewis addysgu eu plant gartref, a hefyd i gryfhau pwerau awdurdodau lleol. Mae llawer o blant a'u teuluoedd sy'n dewis addysgu gartref yn gwneud hynny oherwydd anghenion dysgu ychwanegol eu plant, nad ydynt yn teimlo bod y system ysgol wedi darparu ar eu cyfer, a byddant yn elwa o wasanaeth cefnogol a galluogol gan yr awdurdod lleol. Bydd y cynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth yn fwy effeithiol pan fydd sicrwydd ynghylch anghenion a niferoedd. Mae'n bwysig ymgynghori â phlant i ganfod eu barn ynghylch eu haddysg eu hunain yn rheolaidd, a hefyd sicrhau bod eu barn yn cael gwrandawiad a sylw.

**Beth rydyn ni wedi'i wneud**
Rwyf wedi mynegi fy mhryderon ynghylch y mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol. Mae Ysgrifennydd Addysg y Cabinet wedi dweud bod y mater hwn yn dal i gael ei ystyried, gan gynnwys y posibilrwydd o newid y ddeddfwriaeth. Mae'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol wedi comisiynu adolygiad o ddewis addysgu gartre, gyda golwg ar gyflwyno argymhellion i'r Gweinidogion.

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau wedi'u diweddaru ynghylch sut gallai awdurdodau lleol ddarparu gwell cefnogaeth i blant y dewiswyd eu haddysgu gartref. Fodd bynnag, cefais fy siomi gan ei statws anstatudol, ac yn fy marn i, nid yw'r diwygiadau'n ddigonol i gael effaith gadarnhaol. Nid yw'r canllawiau a ailgyflwynwyd yn sôn o gwbl am hawliau plant i gael gwrandawiad ac i fod yn destun ymgynghori ynghylch eu haddysg, ac nid yw'n manteisio ar y cyfle i adlunio unrhyw ddulliau gweithredu er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu gweld a'u cadw'n ddiogel.

**ARGYMHELLIAD**
Rwy'n dal o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru newid y canllawiau cyfredol i roi grym statudol iddynt, a chynnwys cofrestr orfodol ar gyfer yr holl blant sy'n cael eu haddysgu gartref i sicrhau nad ydynt yn syrthio "oddi ar y radar" yn achos y gwasanaethau cyffredinol, hyd yn oed. Mae hefyd yn bwysig bod diwygio'r canllawiau yn cynnwys pwerau clir i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gweld plant ac yn siarad yn uniongyrchol â nhw ynghylch eu haddysg eu hunain.

### Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)

**Y Materion Allweddol**
Mae Cymru'n datblygu ymateb cenedlaethol i CSE, gan fod heddluoedd wedi gweld cynnydd yn y broses ragweithiol o ganfod plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ran CSE, a gwneud ymgais pendant i fynd ar ôl troseddwyr. Yn dilyn lansio Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru Gyfan i Fynd i'r Afael â CSE, mae Byrddau Diogelu Plant Lleol ac asiantaethau partner yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i atal ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol. Cwblhaodd Llywodraeth Cymru beilot Casglu Data, sy'n golygu bod modd casglu data'n gyson ar draws Cymru i ddarparu darlun cenedlaethol o'n heriau mewn perthynas â CSE, a sut rydyn ni'n ymateb i'r heriau hynny.

**Sut rydyn ni wedi dylanwadu**
Rwy'n cadeirio Bord Gron Genedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae'r grŵp bord gron hwn yn cyfarfod ar hyd y flwyddyn ac yn fy nghefnogi i alw Llywodraeth Cymru a gwasanaethau eraill i gyfrif, ac yn cynnal momentwm datblygiadau cysylltiedig â CSE ledled Cymru. Mae'n dod ag uwch-reolwyr ynghyd o'r heddlu, iechyd plant, gwasanaethau cymdeithasol, elusennau plant, cyfiawnder ieuenctid a Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu arfer gorau a gweithio tuag at ddull gweithredu cenedlaethol fel bod plant yn derbyn yr un lefel o amddiffyniad, ble bynnag yng Nghymru maen nhw'n byw.

**Cyfleoedd a heriau i'r dyfodol**
Byddaf i'n parhau i gadeirio Bord Gron Genedlaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, gan geisio cynnal momentwm o ran ymwybyddiaeth o CSE a datblygiadau gwasanaeth ledled Cymru. Mae pecyn ychwanegol Llywodraeth y Deyrnas Unedig o £40 miliwn i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin rhywiol, camfanteisio a masnachu pobl, a chymryd camau yn erbyn troseddwyr yn arwydd o newid yn yr ymateb ar draws y Deyrnas Unedig i drais rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc a chamfanteisio arnynt. Mae'r buddsoddiad hwn wedi creu cyfleoedd gwirioneddol, gan gynnwys datblygu Canolfan Arbenigedd arloesol CSA, fodd bynnag, mae bylchau'n parhau, yn arbennig yng nghyswllt ataliaeth, ac yn benodol yn achos y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n fwyaf agored i niwed. Mae prinder cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc i'w cefnogi i ymadfer wedi'r trawma a brofwyd, a mynd ymlaen i fyw bywydau hapus a chynhyrchiol. Mae angen i wasanaethau fod ar gael yn gyson i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru sydd wedi profi CSE.

Mae cyfleoedd pellach i ddatblygu a gwella trwy ddiwygio Protocol Plant Coll Cymru Gyfan a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, yn arbennig yng nghyswllt cysondeb yr ymatebion i CSE a chysondeb wrth gategoreiddio achosion. Mae *Safeguarding Children and Young People from Sexual Exploitation (CSE Guidance)* hefyd i gael ei adolygu gan dîm yn CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant) yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd y ford gron CSE yn parhau i fonitro a chefnogi gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r canllawiau statudol a'u heffeithiolrwydd, amddiffyn plant rhag CSE, amharu ar dramgwyddwyr a'u herlyn, a datblygu rhagor ar arfer gorau a darpariaeth i alluogi plant i ymadfer wedi camdriniaeth.

**ARGYMHELLIAD**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cysondeb yn y data sy'n cael ei gasglu ynghylch CSE ledled Cymru i ddarparu darlun cenedlaethol o'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu yng nghyswllt CSE. Dylai ddadansoddi'n drylwyr yr heriau a'r bylchau a nodwyd gan y data cenedlaethol a mynd ati i weithredu yn eu cylch.

**"Mae llawer o blant a'u teuluoedd sy'n dewis addysgu gartref yn gwneud hynny oherwydd anghenion dysgu ychwanegol"**

# DIOGELU

## YMCHWILIADAU A CHYNGOR

Mae ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor yn ffynhonnell annibynnol o gyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt, os byddan nhw'n teimlo eu bod yn methu troi at neb arall gyda'u problem.

Eleni fe wnaethon ni ymdrin â **528 o achosion**, o gymharu â 519 yn y flwyddyn flaenorol, a 540 o achosion yn 2015. Roedden nhw'n dod o **bob ardal awdurdod lleol** yng Nghymru.

**Pwy fu'n cysylltu â ni?**
Yn ein profiad ni, rhieni, aelodau o'r teulu estynedig neu ofalwyr yw'r prif eiriolwyr dros hawliau a lles plant. Nid yw'n syndod mai'r eiriolwyr hyn sydd fel arfer yn cysylltu â ni gyntaf:

- Rhiant (271)
- Aelod o'r teulu estynedig (48)
- Plentyn neu berson ifanc (45)
- Gweithiwr proffesiynol arall (35)
- Gofalwr maeth (34)
- Aelod o'r cyhoedd (23)

**Sut cysyllton nhw â ni?**

- Ffôn (355)
- E-bost (139)
- Llythyr (28)
- Yn bersonol (4)
- Testun (2)

**Pam cysyllton nhw â ni?**
Roedd y materion a godwyd gyda ni yn eang, ond roedd y tri phrif fater oedd yn dod i'r amlwg o'r 528 o achosion yn ymwneud â'r canlynol:

- Addysg (284 o weithiau)
- Gwasanaethau Cymdeithasol (267 o weithiau)
- Yr Amgylchedd (77 o weithiau)

Noder, gall un achos gynnwys mwy nag un mater.

Mae'r astudiaethau achos sy'n dilyn yn dangos yr amrywiaeth o achosion y bu ein swyddfa yn ymdrin â nhw eleni.

## ASTUDIAETHAU ACHOS

### Addysg

**Y mater dan sylw:**
Gofynnodd rhiant am gefnogaeth ein swyddfa i'w helpu i ddelio gyda sefyllfa oedd yn wynebu eu plentyn, sydd â syndrom Asperger a chyflwr iechyd corfforol. Roedd y person ifanc ym Mlwyddyn 12 yn astudio ar gyfer 3 lefel A a Bagloriaeth Cymru, ar ôl llwyddo i basio arholiadau TGAU. Roedd y person ifanc a'r rhiant yn teimlo bod yr ysgol yn llai cefnogol o anghenion ychwanegol y person ifanc nag yn y blynyddoedd blaenorol, ac yn dilyn canlyniad gwael mewn arholiad ffug roedd wedi cael cyngor i ollwng pwnc, a fyddai hefyd wedi golygu bod rhaid gadael Blwyddyn 12, gan na fyddai bellach yn bodloni gofynion yr ysgol o ran isafswm nifer y pynciau roedd yn rhaid eu hastudio.

**Beth wnaethon ni:**
Roedd y rhiant wedi mynd ar ôl y mater gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol, ac wrth wneud hynny, roedd wedi bod yn talu am wersi preifat er mwyn i'r person ifanc fedru dal ati gyda'r arholiadau AS y tu allan i'r ysgol tra bod y trafodaethau'n parhau. Fe wnaeth ein swyddfa ni roi cyngor i alluogi'r rhiant i gael cyfarfod cynhyrchiol gyda'r awdurdod lleol a chodi materion gyda'r ysgol. Fe wnaeth un o'n Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor gwrdd â'r person ifanc i gofnodi dymuniadau a theimladau ynghylch y materion hyn, a sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cael yr wybodaeth honno.

**Canlyniad i'r person ifanc:**
Wedi hynny cytunodd yr awdurdod lleol i ddarparu cyllid er mwyn i'r gwersi preifat barhau yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fel bod y person ifanc yn gallu cwblhau'r ddau lefel A, a hefyd astudio trydydd lefel A yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Byddai hynny'n golygu bod modd i'r person ifanc wneud cais i brifysgol i ddilyn Addysg Uwch a chyflawni potensial yn llawn.

### Addysg

**Y mater dan sylw:**
Yn dilyn digwyddiad lle gwnaeth rhiant gwrdd â'r Comisiynydd, cysylltodd y rhiant wedyn â'r tîm Ymchwiliadau a Chyngor ynghylch mater yn ymwneud â chludiant i'r ysgol. Roedd eu plentyn, sydd ag awtistiaeth, i fod i gychwyn mewn ysgol arbennig ar ddechrau tymor yr hydref, ond pan gysyllton nhw â'r swyddfa ddechrau mis Tachwedd roedd cludiant i'r ysgol yn dal heb gael ei drefnu.

**Beth wnaethon ni:**
Cysylltodd y swyddog Ymchwiliadau a Chyngor â rheolwr y tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol, oedd yn ymwybodol o'r plentyn, ond nid o'r ffaith bod cludiant yn dal yn broblem, a chytunodd i edrych i mewn i'r mater.

**Y canlyniad:**
Adroddodd y rheolwr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) fod yr oedi wrth ddarparu cludiant i'r ysgol wedi digwydd oherwydd bod angen recriwtio, hyfforddi a rhoi gwiriad DBS i hebryngwr. Yn dilyn awgrym gan y swyddog Ymchwiliadau a Chyngor, cytunodd y Rheolwr AAA y byddai'n ffonio'r rhiant i drafod trefniant tymor byr yn y cyfamser, tra bod y broses hon yn cael ei chwblhau. Cysylltwyd â ni ychydig yn ddiweddarach i ddweud bod y mater wedi cael ei ddatrys a bod y rhiant yn hapus iawn ynghylch ymyriad y swyddfa.

# DIOGELU

## YMCHWILIADAU A CHYNGOR

### Addysg

**Y mater dan sylw:**
Cysylltodd rhiant â'n tîm ynghylch dyrannu lle mewn ysgol gynradd i'w phlentyn, oedd ag anabledd. Roedd yn pryderu na fyddai'r ysgol a ddyrannwyd yn diwallu anghenion y plentyn.

**Beth wnaethon ni:**
Cysylltodd ein swyddog ag adran dderbyniadau'r awdurdod lleol, y gwasanaeth cynhwysiad a'r ysgol ddalgylch. Daeth i'r amlwg nad oedd gwybodaeth allweddol am anghenion iechyd wedi cael ei throsglwyddo i'r adran dderbyniadau, ac felly bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb fod yr holl wybodaeth berthnasol wrth law.

**Y canlyniad i'r person ifanc:**
Yn dilyn ein hymyriad, bu'r adran cynhwysiad addysg mewn cysylltiad ag adran dderbyniadau'r awdurdod lleol a'r ysgol ddalgylch. Cafodd y penderfyniad blaenorol ei adolygu a'i newid, a dyrannwyd lle i'r disgybl ar gyfer dechrau'r tymor. Llwyddodd y Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng gwahanol adrannau'r awdurdod lleol i wyrdroi penderfyniad a fyddai wedi cael effaith negyddol ar y person ifanc yma.

### Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

**Y mater dan sylw:**
Cysylltodd eiriolydd â ni ynghylch darparu llety â chymorth ar gyfer person ifanc oedd yn derbyn gofal ac a oedd wedi bod yn byw mewn lleoliad maeth y tu allan i'r sir ers pan oedd yn 5 oed. Roedd y person ifanc wedi cael ar ddeall nad oedd yn gymwys i gael gwasanaeth llety lleol â chymorth, gan fod y ddarpariaeth honno'n benodol ar gyfer ymadawyr gofal o'r awdurdod lleol lle roedden nhw'n byw. Gan nad oedd y person ifanc yn wreiddiol o'r awdurdod lleol hwnnw, ni allai gael mynediad i'r llety

**Beth wnaethon ni:**
Fe wnaeth ein swyddog gwrdd â'r person ifanc i ganfod yr union ddymuniadau oedd dan sylw, a thrafodwyd y pryderon gydag amrywiol adrannau'r awdurdod lleol. Yn dilyn cyngor gan yr adran tai, cynghorwyd y person ifanc i roi eu henw ar y gofrestr tai.

**Newid systemig:**
Amlygodd yr achos hwn y broblem nad oes gan rai plant mewn gofal, sy'n cael eu gosod mewn lleoliadau y tu allan i'r sir am gyfnodau sylweddol o amser, yr un hawliau llety â'u cyfoedion – mater y mae'r Comisiynydd ers hynny wedi tynnu sylw ato ymhlith uwch swyddogion llywodraeth genedlaethol a lleol a'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fel mater y mae angen rhoi sylw iddo.

### Iechyd

**Y mater dan sylw:**
Cysylltodd aelod o deulu â ni yn pryderu am eu plentyn 14 oed oedd yn hel meddyliau ynghylch hunanladdiad ac wedi colli cysylltiad ag addysg. Er gwaethaf atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) gan y Meddyg Teulu a'r darparwr addysg, doedden nhw ddim yn teimlo bod cefnogaeth ar gael.

**Beth wnaethon ni:**
Fe gysylltodd ein swyddog ag adran addysg, gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS yr awdurdod lleol i ganfod pa rwystrau oedd yn atal y person ifanc rhag cael mynediad i'r gefnogaeth iechyd meddwl ofynnol. Daeth yn amlwg bod y darparwr addysg yr oedd y teulu wedi cysylltu â nhw wedi cyfeirio'r plentyn at Seicolegydd Addysg, gyda chais iddyn nhw wneud yr atgyfeiriad i CAMHS, heb gyfeirio'r achos at CAMHS yn uniongyrchol eu hunain.

Doedd yr aelod o'r teulu ddim yn ymwybodol o ymgais sawl gwasanaeth i wneud atgyfeiriad, ac felly roedden nhw wedi rhagdybio bod dim wedi digwydd.

**Y canlyniad i'r person ifanc:**
Wedi i ni ymyrryd, rhoddodd adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol becyn o gefnogaeth yn ei le ar gyfer y tymor byr, ac fe wnaeth CAMHS drefniadau i gwrdd â'r person ifanc a chynnal asesiad.

## Yr amgylchedd a chymuned

**Y mater dan sylw:**
Fe gawson ni lythyr gan ddisgyblion cyngor ysgol yn gofyn i ni eu cynghori ynghylch sut gallen nhw sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn ystod proses ymgynghori ar y bwriad i gau eu canolfan chwaraeon leol.

**Beth wnaethon ni:**
Fe gysyllton ni â'r awdurdod lleol a chasglu gwybodaeth am eu cynlluniau presennol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc lleol. Rhoddodd yr awdurdod lleol wybodaeth i ni am gamau nesaf yr ymgynghori, a chadarnhau y byddai'r disgyblion yn cael cyfle i ofyn cwestiynau a chael eu clywed yn y cyfarfod cyhoeddus fyddai'n cael ei gynnal yn fuan. Fe rannon ni'r wybodaeth gyda'r disgyblion a'u hannog i ofyn am unrhyw asesiad effaith ar hawliau plant a gwblhawyd fel rhan o'r broses gynllunio.

**Y canlyniad i'r plant:**
Dyma'r adborth gawson ni gan yr ysgol: "Diolch am eich ymateb i'n llythyr ym mis Hydref ynghylch y posibilrwydd o gau Canolfan Chwaraeon A. Aeth ein Cyngor Ysgol i'r cyfarfod cyhoeddus, a chan ddilyn eich cyngor, fe ofynnon nhw a oedd awdurdod lleol B wedi cwblhau asesiad effaith ar hawliau plant yng nghyswllt cael gwared o'r Ganolfan Chwaraeon. Dywedodd Mr C (Cyfarwyddwr Strategol yr Awdurdod Lleol) wrth y cyfarfod nad oedd awdurdod lleol B wedi cwblhau asesiad eto, ond y bydden nhw'n cwblhau un cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch y ganolfan."

**Pa fath o adborth gawson ni gan bobl?**
Wrth i bob achos ddod i ben, rydyn ni'n rhoi cyfle i'r rhai sydd wedi cael cyngor a chefnogaeth gennym ni roi adborth ar ein gwasanaeth. Dyma ddetholiad o'r adborth gawson ni eleni:

"Roedd y gefnogaeth ges i'n wych, ac fe wnaeth y ffaith bod swyddfa'r Comisiynydd wedi ymwneud â'r sefyllfa wahaniaeth aruthrol. Bydda i'n bendant yn cysylltu â chi eto os bydda i angen cymorth."

"Alla i ddim diolch digon iddi [Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor] am ei chefnogaeth i fi. Fe wnaeth hi ddelio gyda'r broblem, ond nid dim ond dweud y geiriau iawn wnaeth hi – roedd ei gofal yn amlwg. Roeddwn i'n gallu gweld hynny, ac rydw i mor eithriadol o ddiolchgar am bopeth wnaeth hi."

**"Ar ôl yr alwad gychwynnol, roedd swyddfa'r Comisiynydd yn wych, yn agor drysau, ac yn sicrhau bod pethau'n symud ymlaen. Fe roeson nhw fi mewn cysylltiad ag X, sydd wedi bod o gymorth mawr."**

# DWEUD EICH DWEUD

## Uchafbwyntiau

- Ymgysylltwyd â **10,550** o blant a phobl ifanc
- Yn ystod y 7 mis ers y lansio, rydyn ni wedi recriwtio **32%** o ysgolion uwchradd Cymru i'n cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr
- Cymerodd dros **2000** o blant a phobl ifanc ran mewn ymgynghoriad ynghylch bwlio, a hefyd bron **300** o weithwyr proffesiynol
- Cynaliwyd digwyddiad gydag ymadawyr gofal o **19** o awdurdodau lleol
- Lansiwyd her gymunedol newydd Bagloriaeth Cymru

Mae gwaith ein tîm cyfranogiad yn ceisio sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed mewn perthynas â hawliau plant, a bod eu lleisiau'n cyfrannu at ddylanwadu ar waith y Comisiynydd. Rydyn ni am i blant a phobl ifanc ddeall sut a pham maen nhw'n ymwneud â'n sefydliad a sut mae eu barn yn gwneud gwahaniaeth.

Dyma ddetholiad o'n gwaith eleni:

## Cynlluniau Llysgenhadon

Rydyn ni wedi parhau i ehangu ein cynlluniau Llysgenhadon eleni. Bellach rydyn ni'n cynnal tri chynllun gwahanol, gan ein bod wedi lansio cynllun llysgenhadon myfyrwyr ym mis Medi 2017. Y rhaglenni llysgenhadon yw un o'r prif ffyrdd i'r swyddfa ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

**Llysgenhadon Cymunedol** – Plant a phobl ifanc sy'n rhan o grŵp diddordeb arbennig ac sydd wedi gwirfoddoli i fod yn Llysgenhadon i'r Comisiynydd. Rydyn ni wedi parhau i gadw mewn cysylltiad â'n grwpiau yng Nghaerdydd, Abertawe a Blaenau Gwent ac rydyn ni wedi sefydlu grwpiau newydd ym Mhowys, Sir y Fflint a Cheredigion.

**Llysgenhadon Myfyrwyr** – Cafodd y rhaglen hon ei pheilota yn ystod 2015/16 gyda nifer bach o ysgolion a'i gwerthuso yn haf 2016. Defnyddiwyd canfyddiadau allweddol y gwerthusiad i ddatblygu'r rhaglen ymhellach, ac aeth yn fyw o fis Medi 2016. Lansiwyd y rhaglen yn swyddogol ym mis Tachwedd trwy weminar lle roedd 87 o ddisgyblion o 21 ysgol uwchradd wahanol yn bresennol. Nod y cynllun hwn yw hybu hawliau pobl ifanc a CCUHP mewn ysgolion uwchradd. Ar ôl lansio'r cynllun yn llwyddiannus, ymunodd 71 ysgol uwchradd â'r cynllun Llysgenhadon Uwchradd, a dechrau cyfrannu at waith y swyddfa.

**Llysgenhadon Gwych** - Y cynllun Llysgenhadon gwreiddiol sy'n hyrwyddo hawliau plant a CCUHP mewn ysgolion cynradd. Yn ystod 2016/17 ymunodd cyfanswm o 262 o ysgolion cynradd â'r cynllun hwn.

I gefnogi ein Llysgenhadon Gwych, fe gynhalion ni gyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ym mis Hydref 2016, yn Llanelwy, Caerfyrddin a Caerdydd, gyda 244 o blant o ysgolion yn 19 o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Roedd y digwyddiadau'n gyfle i'r Llysgenhadon ddysgu mwy am eu rôl, yn ogystal â chyfrannu at ein hymgynghoriad ar fwlio. Oherwydd y galw gan ysgolion am gyfle i ddod i'r digwyddiadau hyn, cynhaliwyd dau ddigwyddiad llai i ysgolion llysgenhadon hefyd ym Mhowys yn ystod y flwyddyn.

Mae ein holl lysgenhadon yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawni ein cynllun gwaith. Bob tymor ysgol, mae'r cynlluniau'n cael tasgau arbennig, yn ceisio'u barn ar bwnc penodol o'n cynllun gwaith. Eleni gwelwyd miloedd o enghreifftiau o'n llysgenhadon yn rhannu eu barn am fwlio ac am fabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer addysg.



**“Mae gwaith ein swyddogion cyfranogaeth yn sicrhau fod plant a phobl ifanc yn dylanwadu a chyfrannu at ein gwaith”**

**Gweminarau:** Gan mai tîm bach o staff sydd gennym, rydyn ni’n gwneud mwy o ddefnydd o weminarau i gyfathrebu gyda niferoedd mwy o blant a phobl ifanc. Mae natur ryngweithiol seminarau ar y wê yn golygu bod modd i’r cyfranogwyr anfon, derbyn a thrafod materion mewn amser go iawn, heb fod angen iddyn nhw i gyd fod yn yr un man ar yr un pryd. Rydyn ni wedi cynnal 2 weminar i ysgolion uwchradd eleni, ac ymunodd rhwng 12 a 20 o ysgolion â’r ddwy fel ei gilydd, gyda chyfanswm o fwy na 230 o ddisgyblion yn cymryd rhan. Rydyn ni wedi cyflwyno gweminarau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg.

**Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd:** Mae’r tîm wedi recriwtio, hyfforddi, sefydlu a chefnogi pobl ifanc i ffurfio panel ymgynghorol newydd ar gyfer swyddfa’r Comisiynydd. Mae’r panel yn rhan o’n trefniadau llywodraethu diwygiedig, ac yn cynnwys 15 o blant a phobl ifanc rhwng 11 - 18 oed (adeg recriwtio). Maen nhw’n cynnal tri chyfarfod diwrnod llawn y flwyddyn, ac mae’r cadeirydd a’r is-gadeirydd hefyd yn aelodau o banel ymgynghorol y Comisiynydd, sy’n darparu cefnogaeth strategol a her.

# DWEUD EICH DWEUD

Mae aelodau'r panel, sy'n dod o dde a gogledd Cymru, yn ein galw i gyfrif o ran cyflawni ein cynlluniau gwaith blynyddol a thair blynedd. Mae'r bobl ifanc sydd wedi dod i'r paneli wedi gallu rhoi cyngor, her a chefnogaeth i ni ar amrywiaeth o bynciau. Isod ceir rhai o ddyheadau'r bobl ifanc ar ddechrau eu hymwneud â'r panel ymgynghorol oedd newydd ei ffurfio:

- *'Rwy'n credu'n bendant y dylai lleisiau a barn pobl ifanc gael eu clywed ac rwy'n hoffi cefnogi hynny gymaint â phosib. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar mod i'n gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru, ac yn awyddus i weld beth ddaw o hynny. Gofalwn fod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed!'– Maisy*

- *'Mae gen i ddiddordeb yn hawliau person ifanc a sut mae penderfyniadau pobl mewn awdurdod yn effeithio ar fywydau a phrofiadau'r genhedlaeth iau.' - Eleri*

- *'Rwy'n credu'n angerddol mewn ymgyrchu a gwirfoddoli i frwydro dros hawliau plant a hawliau dynol. Rydw i hefyd yn eiriolydd dros hawliau LHDT, hawliau anabledd a gofal iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc yn arbennig.' – Eve*

- *'Rwy'n aelod o'r cyngor ysgol ac yn gyfarwydd â mynegi barn plant a phobl ifanc yn fy nghymuned. Rwy eisoes yn cynrychioli plant Ynys Môn; bydda i'n cynrychioli plant Cymru yn well fyth'. - Sam*

**Digwyddiadau ac ymweliadau:** Un o swyddogaethau hanfodol ein gwaith cyfranogiad yw sicrhau bod modd i farn pob plentyn a pherson ifanc gael ei chlywed gan y swyddfa. Bydd peth o'r gweithgarwch hwn yn cael ei gynnal ac yn parhau, tra bydd gweithgarwch arall yn fwy achlysurol. Rydyn ni wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn mwy na 115 o wahanol ddigwyddiadau eleni, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd, digwyddiadau chwarae yng Ngogledd Cymru, Blaenau Gwent a Sir Benfro, ac wedi targedu gwaith gyda phlant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr, plant yn y system Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys gwaith sy'n parhau yn HM Prison and YOI, Parc ym Mhen-y-bont, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, plant ag anableddau, gofalwyr ifanc, a phlant â phroblemau emosiynol a iechyd meddwl.

Rydyn ni hefyd wedi cefnogi disgyblion o Ysgol Gyfun Aberpennar yng yn Rhondda Cynon Tâf' i gynrychioli Cymru mewn cynhadledd Ewropeaidd ym Mharis, lle byddan nhw'n cyflwyno gwaith maen nhw wedi'i wneud ynghylch perthnasoedd iach.

**Her Gymunedol Bagloriaeth Cymru:**
Ar y cyd â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) rydyn ni wedi datblygu Her Gymunedol ar gyfer dysgwyr Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion. Cafodd hon ei chadarnhau gan CBAC ym mis Tachwedd 2016.

Gellir cwblhau'r her fel rhan o gymhwyster Cenedlaethol/Sylfaen CA4. Mae'r her yn galw am roi hyfforddiant ar hawliau plant a phobl ifanc a rôl y Comisiynydd i bobl ifanc eraill. Bydd yr hyfforddiant yn gwella dealltwriaeth pobl ifanc eraill o'u hawliau a'n gwaith ninnau.

**Senedd Ieuenctid:** Roedd ein dau adroddiad blynyddol diwethaf yn cynnwys argymhelliad ynghylch sefydlu gofod democrataidd cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc ar ffurf cynulliad ieuenctid. Roedden ni wrth ein bodd yn gweld y Llywydd yn cyhoeddi cynlluniau ym mis Hydref 2016 i Gomisiynydd y Cynulliad sefydlu Senedd Ieuenctid genedlaethol i Gymru. Mae'n anfon neges glir i blant a phobl ifanc yng Nghymru eu bod nhw'n ddinasyddion pwysig sydd â rhan i'w chwarae yn y gwaith o lywodraethu ein cenedl. Ochr yn ochr ag aelod o'n panel ymgynghorol pobl ifanc, mae'r Comisiynydd wedi chwarae rhan weithredol yn y grŵp llywio a ffurfiwyd i helpu i sefydlu'r senedd ieuenctid newydd.

# DEALL EICH HAWLIAU

## Uchafbwyntiau

- **Sylw yn y cyfryngau 437 o weithiau**
- **Gwaith prosiect pontio'r** cenedlaethau wedi'i wylio dros 9000 o weithiau ar Facebook
- **Cyhoeddwyd pum adroddiad polisi** ar bynciau oedd yn cynnwys gofal preswyl a pherthnasoedd iach
- **Lefelau ymwybyddiaeth** o'r Comisiynydd yn uwch nag erioed o'r blaen

Mae gwaith ein tîm cyfathrebu yn cynnwys ymateb i newyddion am faterion plant, mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau sylw i'n darnau pwysicaf o waith, a chyflwyno ffyrdd creadigol o wella hawliau plant.
Dyma ddetholiad o'n gwaith eleni:

**Prosiect Pontio'r Cenedlaethau:** Ym mis Chwefror 2017 fe lansion ni adnodd mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gyda'r nod o annog ysgolion a grwpiau o bobl hŷn i sefydlu grwpiau pontio'r cenedlaethau. Gall prosiect pontio'r cenedlaethau fod yn ffordd gadarnhaol iawn o ddileu'r rhwystrau sy'n gwahanu pobl ifanc a phobl hŷn, dysgu sgiliau newydd, a rhoi hwb i hyder a llesiant. Mae'r adnodd yn cynnwys ffilmiau, gweithgareddau a chynlluniau gwersi, ac mae ar gael ar wefannau'r ddau Gomisiynydd a thrwy'r Hwb.

**Pecyn Symbolau CCUHP:** Ym mis Tachwedd 2016, i gyd-ddigwydd â Diwrnod Rhyngwladol y Plant, fe lansion ni adnodd ar y cyd â'n cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban. Mae'r adnodd yn cyfleu hawliau plant drwy ddefnyddio symbolau a thestun symlach. Fe'i lluniwyd i'w ddefnyddio gan addysgwyr, gweithwyr cymorth, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gyda'r nod o wella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'u hawliau a sut gallan nhw fod yn berthnasol i'w bywydau pob dydd.

Mae wedi'i fwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd heb eiriau, sydd ag anawsterau iaith a lleferydd, anghenion cefnogi ychwanegol, neu blant ifanc iawn. Fodd bynnag, mae'r adnodd yn un hyblyg, a gellir ei ddefnyddio i addysgu amrywiaeth o blant am CCUHP. Paratowyd adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar ein gwefan i ddangos i weithwyr proffesiynol sut gellid defnyddio'r adnodd.

**Gwefan:** drwy weithio gyda phobl ifanc Fyddar o Abertawe, rydyn ni wedi cyflwyno'r prif ddarnau o wybodaeth ar ein gwefan ar ffurf fideos Iaith Arwyddion Prydain. Mae hynny'n cynnwys fideos ar bob hawl o dan CCUHP.

**Cyfryngau Cymdeithasol:** bob dydd Gwener rhwng 12 ac 1yp rydyn ni'n gwahodd pobl i rannu eu gwaith ar hawliau plant, gan ddefnyddio'r hashnod #AwrHawliau / #RightsHour. Mae'r awr, sy'n gweithredu fel hysbysfwrdd rhithwir o waith y wlad ar hawliau plant, wedi ennyn diddordeb yn rhyngwladol, ac mae sefydliadau ac unigolion o wledydd sy'n cynnwys Unol Daleithiau, yr Alban a Lloegr bellach yn rhannu deunydd perthnasol, creadigol.



# DIWEDDGLO

## A CHRYNHOI'R ARGYMHELLION

### Dyma fy nyheadau i blant a phobl ifanc Cymru

Erbyn 2019 rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r gwelliannau canlynol i blant:

- **Bydd plant a phobl ifanc** yn gallu cyrchu'r gwasanaethau iechyd meddwl mae arnyn nhw eu hangen, a hynny mewn modd amserol. Bydd rhaglenni cryfach ar gyfer hybu iechyd a llesiant emosiynol ar waith yn ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuenctid
- **Bydd gennym ni well dealltwriaeth o brofiadau** cyfoes plant o fwlio, a bydd mwy o ysgolion yn atal ac yn taclo bwlio'n effeithiol
- **Bydd gwell mynediad i weithgareddau chwarae,** diwylliant a hamdden gan y plant sy'n fwyaf tebygol o golli cyfle i gael y rhain, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl
- **Bydd ymadawyr gofal yn cael gwell mynediad i opsiynau tai** diogel a sicr, a chynnig gweithredol o ran swydd, addysg neu le mewn hyfforddiant
- **Bydd pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol** barhaus yn gallu pontio'n well i'r gwasanaethau oedolion
- **Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion** rhag ymosodiad corfforol
- **Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys** yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys fy sefydliad fy hun.

Bydd fy swyddfa'n chwarae ei rhan tuag at gyflawni rhai o'r nodau hyn. Yn **2017/18** byddwn ni'n gweithio ar brosiectau yn y meysydd canlynol:

- **Hawliau plant a chenedlaethau'r dyfodol**
- **Seminar Cychwynnol ar Hawliau Plant ym myd Iechyd**
- **Trefniadau pontio i oedolaeth** ar gyfer plant a phobl ifanc anabl
- **Taclo bwlio**
- **Sicrhau cyfleoedd cyfartal o ran** gweithgareddau chwarae, hamdden a diwylliannol
- **Cynllun gwers ar Islamoffobia**
- **Arolwg Mannau Disglair** (Bright Spots) gyda phlant sy'n derbyn gofal
- **Darlithoedd sydd ar gael** i'w lawrlwytho am CCUHP a'm swyddfa
- **Gwaith dilynol ar ein** hadroddiad 'Y Gofal Cywir' am ofal preswyl
- **Gwaith dilynol ar ein hadroddiad 'Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal',** sy'n edrych ar ba mor hwylus yw mynediad i gadeiriau olwyn mewn ysgolion uwchradd
- **Parhau i weithio ar ein hadroddiad 'Breuddwydion Cudd'** ynghylch pontio i oedolaeth ar gyfer ymadawyr gofal

**CRYNODEB O'R ARGYMHELLION**
Mewn ymateb i'r materion yr adroddwyd arnynt yn yr adroddiad blynyddol hwn, rwyf yma'n tynnu ynghyd yr argymhellion i Lywodraeth Cymru a wnaed ar hyd yr adroddiad.

## Darpariaeth

1. **Gwasanaethau Cymdeithasol:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni eu holl ymrwymiadau a nodwyd yn yr adroddiad Breuddwydion Cudd, gan gynnwys cefnogaeth gyfartal i bawb sy'n gadael gofal, p'un a ydyn nhw'n byw mewn gofal maeth neu ofal preswyl, cyllid ar gyfer ymgynghorwyr personol i gefnogi pawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed, cyhoeddi gwybodaeth glir i ymadawyr gofal ynghylch materion ariannol a gwarantu cefnogaeth ariannol i ymadawyr gofal sy'n mynd i addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n weithredol i adrodd ar eu cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau hyn i awdurdodau lleol ac yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc eu hunain.

2. **Gwasanaethau Cymdeithasol:** Dylai Llywodraeth Cymru eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu treth y cyngor hyd at 21 oed i helpu i liniaru tlodi ymhlith ymadawyr gofal.

3. **Mabwysiadu:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i sicrhau bod hawliau siblingiaid i gadw mewn cysylltiad yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio gofal mabwysiadu.

4. **Gofal Preswyl:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni yn erbyn cynllun gwaith eu grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd mewn ymateb i'm hargymhellion yn adroddiad Y Gofal Cywir.

5. **Gofal Preswyl:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau a chynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau nid-er-elw fel bod modd gwario arian a fuddsoddir mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ar wella canlyniadau i blant yn hytrach na darparu enillion i randdeiliaid.

6. **Eiriolaeth:** Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad y Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau arfaethedig yn cyrraedd pawb sydd â hawl i'w derbyn, gan gynyddu tebygolrwydd canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

7. **Addysg:** Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau cefnogaeth wladol briodol ar gyfer anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc Byddar a rhai â nam ar eu clyw a'u teuluoedd, gan gynnwys cyfleoedd dysgu hygyrch a fforddiadwy ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar amrywiaeth o lefelau, a chyflogi staff mewn ysgolion sy'n cyfathrebu'n rhugl mewn BSL, i ymateb i anghenion unigolion.

8. **Iechyd meddwl:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhaglen T4CYP yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon, nes bod modd eu bodloni bod gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant digonol ar gael i blant yng Nghymru ar yr adeg ac yn y mannau lle mae eu hangen. Mae angen i effaith ac allbynnau'r Rhaglen fod yn gynaliadwy i'w cyflwyno ar lefel leol, ac mae angen i waith y Rhaglen fod wedi'i wreiddio'n ddigonol i'r byrddau cynllunio rhanbarthol fedru cynnal cynnydd ac ansawdd y ddarpariaeth i bob plentyn ledled Cymru.

9. **Eiriolaeth iechyd:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eiriolaeth gysylltiedig â iechyd i bobl ifanc o dan 18 oed ar gael ac yn hygyrch i bawb sydd ei hangen.

# DIWEDDGLO

## A CHRYNHOI'R ARGYMHELLION

10. **Trafnidiaeth:** Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymhorthdal cludiant cyhoeddus i blant ar gael hyd at 18 oed, heb newid cymhwystra yn 16 oed.

11. **Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar bob corff perthnasol o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i CCUHP a CCUHPA a rhoi'r ddyletswydd honno ar wyneb y Bil.

12. **Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru trwy estyn ei gylch gorchwyl i gwmpasu cyrff iechyd.

13. **Blynyddoedd Cynnar:** Trwy beilot y cynnig gofal plant ac unrhyw gynllun dilynol dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw plant rhieni sydd ddim yn gweithio yn colli cyfle i gael y gofal plant cynyddol sy'n cael ei gynnig i blant rhieni sy'n gweithio.

14. **Tlodi:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio popeth o fewn ei gallu i liniaru tlodi plant, gan gynnwys defnyddio pwerau newydd i godi trethi. Dylai gefnogi awdurdodau lleol i gynnig mwy o gymorth mewn meysydd penodol y gwyddys eu bod yn rhoi pwysau ar y teuluoedd tlotaf, gan gynnwys eisiau bwyd yn ystod y gwyliau, costau gwisg ysgol a biliau tanwydd domestig uchel.

### Diogelu

1. **Addysg:** Rwy'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion a lles tymor hir plant yn cael eu diogelu trwy sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei sylfaenu'n amlwg ar Ddull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant, a bod y deilliannau dysgu'n cefnogi pob plentyn i wybod beth yw eu hawliau o dan CCUHP.

2. **Perthnasoedd iach:** Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Canllawiau 'Parchu Eraill' roi sylw i brofiadau uniongyrchol a safbwyntiau plant a phobl ifanc ynghylch effaith bwlio ac effeithiolrwydd polisïau ac arferion cyfredol. Dylai nodi'n eglur sut mae'n bwriadu atal a mynd i'r afael â bwlio ar lefel genedlaethol ac amlinellu sut bydd y gwaith hwn yn dylanwadu ar ddiwygio'r cwricwlwm a hyfforddi athrawon.

3. **Cwricwlwm:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud addysg hawliau dynol plant yn agwedd orfodol ar y cwricwlwm. Dylai rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm wreiddio dysgu am Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar draws pob rhan o'r cwricwlwm newydd. Dylai hyn gynnwys cysylltu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol â hawliau plant a chefnogi plant a phobl ifanc i ddeall bod ganddyn nhw'r un hawliau ar-lein ag oddi ar-lein.

4. **Dewis Addysgu Gartref:** Rwy'n dal o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru newid y canllawiau cyfredol i roi grym statudol iddyn nhw a chynnwys cofrestr orfodol ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref i sicrhau nad ydyn nhw'n syrthio "oddi ar y radar" yn achos hyd yn oed y gwasanaethau cyffredinol. Mae'n bwysig fod y newdiadau yn rhoi pwer clir i awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gweld y plant a siarad gyda nhw'n uniongyrchol am eu haddysg.

5. **Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE):** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n gyson ynghylch CSE ledled Cymru i ddarparu darlun cenedlaethol o'n heriau yng nghyswllt CSE. Dylai ddadansoddi'n drylwyr yr heriau a'r bylchau a nodwyd gan y data cenedlaethol, a gweithredu yn eu cylch

# DADANSODDIAD
## O ARGYMHELLION Y LLYNEDD

**Dyma ddadansoddiad o gynydd gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn erbyn argymhellion yr adroddiad blynyddol llynedd.**

**Gwyrdd** sy'n dynodi cynnydd da yn erbyn yr argymhellion
**Melyn** sy'n dynodi cynnydd gweddol ond mae'r Comisiynydd yn bryderus
**Coch** sy'n dynodi nad oes llawer o gynnydd o gwbl ac mae'r Comisiynydd yn bryderus iawn

| | Galwadau Adroddiad Blynyddol 2015-16 | Ymateb | Sylwadau o ymateb LlC a diweddariadau |
|---|---|---|---|
| 1 | **Diwygio'r Cwricwlwm:** Dylai rhaglen diwygio'r cwricwlwm 'Dyfodol Llwyddiannus' gydweithio'n agos â rhaglen 'Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc' y GIG i hybu dulliau gweithredu ysgol gyfan, seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer perthnasoedd iach, iechyd meddwl a llesiant. | Melyn | Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'm Hadroddiad Blynyddol yn 2015-16 y byddai'r ddau ddarn o waith yn cael eu halinio, ac mae arweinydd datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad (AoLE) ar gyfer Iechyd a Llesiant yn aelod o'r gweithgor 'Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc' ar wydnwch, y blynyddoedd cynnar a llesiant. Fodd bynnag, ni welwyd llawer o dystiolaeth gadarn hyd yma o gyd-gynllunio na rhannu gwybodaeth rhwng y ddau grŵp.<br><br>Er mwyn dod â'r ddau lif gwaith at ei gilydd, fe wnes i rannu papur gyda'r gweithgorau Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a Diwygio'r Cwricwlwm, yn nodi sut gall y ddwy raglen gydweddu â'i gilydd. Rwy'n dal i bryderu y gallai Llywodraeth Cymru golli'r cyfle i integreiddio datblygiad y dulliau gweithredu hyn yn llawn.<br><br>Oherwydd pryderon parhaus ynghylch hyn, fe ysgrifennais at yr Ysgrifenyddion Cabinet dros Addysg a thros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ym mis Mawrth 2017 i ategu'r pwyntiau a godwyd yn fy mhapur. |
| 2 | **Iechyd Meddwl:** Dylai rhaglen y GIG 'Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc' barhau i dderbyn cyllid digonol i gyflawni ei huchelgeisiau a dylai fonitro a yw profiadau plant o wasanaethau gofal iechyd meddwl yn gwella. | Melyn | Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y swm o bron £8 miliwn o gyllid newydd a fydd yn cael ei ddarparu'n flynyddol ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ymdrin ag a yw'r arian yn cael ei fuddsoddi yn y mannau cywir, ac a yw profiadau plant o ofal iechyd meddwl yn gwella neu beidio mewn gwirionedd.<br><br>Mae angen casglu profiadau plant a'u monitro'n weithredol er mwyn sbarduno gwelliannau. |

# DADANSODDIAD

## O ARGYMHELLION Y LLYNEDD

| | Galwadau Adroddiad Blynyddol 2015-16 | Ymateb | Sylwadau o ymateb LIC a diweddariadau |
|---|---|---|---|
| **3** | **Addysg:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd a Chôd Ymarfer cadarn sy'n cyflawni ei ymrwymiad i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylai gryfhau'r cydlyniant, y ddarpariaeth a'r gefnogaeth a roddir i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ymrwymo uchafswm yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu ar gyfer estyn y cymorth y gellir ei hawlio, gan gyflwyno dyletswyddau statudol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG i ddarparu cefnogaeth ac i gryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru. | | Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd o ran cyflwyno'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nod y Bil yw cyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n ceisio cryfhau cydlyniant y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Rwyf wedi croesawu egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rwy'n falch bod y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg wedi ymrwymo £20m i gefnogi'r rhaglen drawsffurfiannol i newid y system. Rwy'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig cryfhau pwerau Tribiwnlys Addysg Cymru i gynnwys cyrff iechyd o fewn ei gwmpas. |
| **4** | **Addysg gartref:** Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r gofynion i rieni gofrestru fel rhai sydd wedi dewis addysgu eu plant gartref a bod pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref trwy ddewis yn gweld gweithiwr proffesiynol o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn iddyn nhw fedru mynegi barn am eu profiadau addysgol. | | Mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg wedi dweud ei bod hi'n ystyried a oes angen deddfwriaeth ar y mater hwn. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi comisiynu adolygiad o addysgu gartref, gyda golwg ar gyflwyno argymhellion i Weinidogion.<br><br>Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r canllawiau wedi cael eu hailgyflwyno, ond nid yw'r dyletswyddau ynddynt yn gryfach ac nid oes ganddynt rym statudol. Nid yw'r canllawiau a ailgyflwynwyd yn cynnwys rhagor o fanylion am hawliau plant i gael eu clywed ac i fod yn rhan o'r ymgynghori ynghylch eu haddysg, er bod yr ailgyflwyno wedi digwydd ar ôl yr Adolygiad Ymarfer Plant o achos Dylan Seabridge. Mae cyflwyno cofrestr a gofynion statudol mwy cadarn i sicrhau bod plant yn cael eu gweld a bod rhywun yn siarad â nhw yn dal yn flaenoriaethau i'r gwaith hwn. |

| | Galwadau Adroddiad Blynyddol 2015-16 | Ymateb | Sylwadau o ymateb LIC a diweddariadau |
|---|---|---|---|
| 5 | **Eiriolaeth:** Dylai'r Llywodraeth weithio gydag ADSS a CLILC i weithredu Dull Cenedlaethol o ymdrin ag Eiriolaeth Statudol fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc cymwys ledled Cymru yn derbyn 'cynnig gweithredol' o ran eiriolaeth ac yn cael eu cefnogi i fynegi eu barn ar y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu derbyn. | | Penododd Llywodraeth Cymru reolwr gweithredu, mewn ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i eiriolaeth statudol i blant yng Nghymru. Fe roeson ni dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Ymchwiliad hwnnw a pharhau i godi gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a swyddogion yr angen am sicrhau bod pob rhanbarth yn cyflawni holl gydrannau'r Dull Cenedlaethol a gynigir, er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ledled Cymru.<br><br>Mae pob un o Arweinwyr y 22 Awdurdod Lleol wedi "ymrwymo'n weithredol", ond nid yw'r dull wedi cael ei roi ar waith eleni. Y targed ar gyfer gweithredu yw Mehefin 2017.<br><br>Unwaith mae'r holl ranbarthau wedi rhoi'r Dull Cenedlaethol ar waith, bydd angen hefyd am fonitro'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau eiriolaeth a'r ymwybyddiaeth ohonynt i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni gyda chefnogaeth gwasanaethau eiriolaeth. |
| 6 | **Mabwysiadu:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a threfniadau cydweithio rhanbarthol i sicrhau mwy o ddarpariaeth o ran cefnogaeth mabwysiadu, gan ddarparu adnoddau ychwanegol lle bo gofyn. | | Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) yn datblygu eu dull o ymdrin â gwasanaethau cefnogi, ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £90,000 er mwyn i'r NAS ddatblygu'r 'Fframwaith Cefnogi Mabwysiad'. Mae gwaith yn parhau yn y cyswllt hwn, ond rwy'n croesawu'r ffaith bod camau cadarnhaol ar waith i ymdrin â'r bwlch sy'n dal i fodoli yn achos llawer gormod o blant a'u teuluoedd.<br><br>Mae'r NAS yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi mabwysiad a darparu gwybodaeth reolaidd i'm swyddfa ynghylch cynnydd a'r gwaith sylweddol sy'n dal i'w wneud ar y mater hwn. |

# DADANSODDIAD

## O ARGYMHELLION Y LLYNEDD

| | Galwadau Adroddiad Blynyddol 2015-16 | Ymateb | Sylwadau o ymateb LIC a diweddariadau |
|---|---|---|---|
| 7 | **Tlodi:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru arddangos arweiniad clir a chryf i ddileu tlodi plant, trwy ymgysylltu'n gadarnhaol a chydweithio â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chyrff cyhoeddus a phreifat ar draws pob sector, gan gynnwys cyflogwyr. | | Mae Ymateb Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyhoeddus a enwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i sicrhau ffocws ar dlodi plant wrth ddatblygu amcanion llesiant, yn ogystal ag ymgysylltu â chyflogwyr a busnesau yng Nghymru i greu swyddi a thwf.<br><br>Yn ystod eleni, cyhoeddwyd na fydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn parhau, gan nad yw'n cyflawni ei nod o drechu tlodi, ac mae'r targed o ddileu tlodi plant erbyn 2020 wedi cael ei ollwng. Dull gweithredu newydd yw Plant yn Gyntaf sy'n cael ei ddatblygu, ond mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad cryf ac yn canolbwyntio'n arbennig ar fynd i'r afael â thlodi trwy unrhyw newidiadau arfaethedig. |
| 8 | **Tlodi:**<br>Er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant, dylai Llywodraeth Cymru lunio a monitro cynllun cyflawni penodol ar gyfer tlodi plant, gyda thargedau a cherrig milltir clir, i sbarduno gweithrediad strategaeth genedlaethol i sicrhau nad yw unrhyw blentyn o dan anfantais o safbwynt gwireddu eu hawliau o dan CCUHP. | | Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen Cynllun Cyflawni ar wahân ar gyfer Tlodi Plant. |
| 9 | **Amddiffyniad cyfartal:**<br>Mae'r Comisiynydd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl i ddileu amddiffyniad 'cosb resymol'. | | Dwi'n croesawu cyhoeddiad y Prif Weinidog sy'n cadarnhau y bydd y ddeddfwriaeth yma'n symud yn ei flaen yn ystod cyfnod y cynulliad presennol. Dwi'n aros am fwy o fanylion ynghylch amseri a chynnwys y ddeddfwriaeth. |

| | Galwadau Adroddiad Blynyddol 2015-16 | Ymateb | Sylwadau o ymateb LIC a diweddariadau |
|---|---|---|---|
| **10.** | **Cludiant i'r ysgol:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r ddarpariaeth statudol a'r canllawiau gweithredu cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod pob taith i'r ysgol ac yn ôl yn ddiogel a bod awdurdodau lleol yn gwbl glir ynghylch eu cyfrifoldebau i sicrhau bod hyn yn digwydd. | | Diweddarwyd y canllawiau ddiwethaf ym mis Ionawr 2016 ac nid ydynt wedi'u targedu ar gyfer adolygu pellach.<br><br>Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ym mis Mawrth 2017 ynghylch y mater hwn, gan fod pryder yn parhau ynghylch diffyg eglurder ar lefel leol o ran dehongli a chymhwyso'r canllawiau. |
| **11.** | **Addysg hawliau dynol:** Mae gan addysg hawliau dynol, gan gynnwys gwybodaeth am hawliau plant, sylfaen gadarn yn y cwricwlwm newydd 'Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes'. | | Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn dweud y byddai'r ysgolion arloesi yn cael cyfle i ystyried cynnwys addysg hawliau dynol yng nghyd-destun y chwe Maes Dysgu a Phrofiad unigol, fel rhan o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.<br><br>Ar sail fy mhrofiad i nid yw hyn yn digwydd fel rhan o'r broses o ddiwygio'r Cwricwlwm ei hun. Fodd bynnag, mae fy nghanllaw innau "Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru" yn rhoi gwybod i ysgolion sut mae ymgorffori Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ym mhob rhan o'u gwaith. Mae'n cynnwys enghreifftiau ymarferol ac astudiaethau achos o sut mae ysgolion wedi defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau i ymdrin â phroblemau ymddygiad a gwaharddiadau o'r ysgol, ac i addysgu plant am eu hawliau i fod yn ddiogel, gan arwain at ddatgeliadau pwysig. |
| **12.** | **Cyfranogiad:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â diwygio addysg. | | Mae'r sector addysg yng Nghymru yn mynd trwy gyfnod o newid pwysig sy'n gadarnhaol, ac eto'n heriol. Rwy'n ymwybodol bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud gan dîm Diwygio'r Cwricwlwm a'r Ysgolion Arloesi i ddatblygu cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd (AoLEs).<br><br>Rwy'n dal yn bryderus nad oes strategaeth na mecanwaith i roi sylw systematig i farn plant a phobl ifanc wrth wneud y penderfyniadau hyn. |

# DADANSODDIAD

## O ARGYMHELLION Y LLYNEDD

| | Galwadau Adroddiad Blynyddol 2015-16 | Ymateb | Sylwadau o ymateb LIC a diweddariadau |
|---|---|---|---|
| **10.** | **Argymhelliad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru:** Er nad yw gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhan o'm cylch gorchwyl dedddfwriaethol, rwyf am gadarnhau fy mwriad i bwyso am ailsefydlu gofod democrataidd cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc, ar ffurf Cynulliad Ieuenctid. Rwy'n gwbl ymroddedig i weithio gyda phobl ifanc a'r Cynulliad i wireddu'r uchelgais hon. | | Rwy'n falch o weld y cynnydd a wnaed at sefydlu Cynulliad Ieuenctid cynrychioliadol, a etholir yn ddemocraidd yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn mynychu Grŵp Llywio'r Senedd Ieuenctid, ar y cyd ag aelod o'm Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc, a byddaf yn parhau mewn cysylltiad â'r broses hon yn ôl y galw er mwyn gwireddu hyn. |


‘Mae Dull Hawliau Plant yn rhoi
CCUHP ar ganol profiad pob
plentyn o addysg, ac ar ganol
gweithrediadau pob ysgol’

# SUT RYDYM WEDI PERFFORMIO FEL SEFYDLIAD



# PROSESAU GWEITHREDIADOL

## Safonau o ran yr Iaith Gymraeg

Yn unol ag adran 44 o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2001, mae'n rhaid i ni gydymffurfio â'r Safonau a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Er bod llawer o'r safonau yn adlewyrchu ein harferion gweithredu presennol, rydym wedi adolygu ein harferion presennol ac wedi gwneud newidiadau i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r holl safonau. Rydym wedi:

- hunanasesu yn erbyn rhybudd cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg;
- creu cynllun gweithredu mewnol i sicrhau bod yr holl safonau'n cael eu bodloni;
- darparu canllawiau trwy sesiynau briffio i'r staff;
- sicrhau bod y cynllun gweithredu yn eitem safonol ar agenda cyfarfodydd misol y Tîm Rheoli; a
- galluogi'r holl staff i wella'u sgiliau Cymraeg trwy ddysgu mewnol.

Ni dderbyniwyd cwynion eleni ynghylch y safonau gweithredu y mae dyletswydd arnon ni i gydymffurfio â nhw.

O'r 25 o bobl a gyflogwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad, rydym yn ffodus bod gennym lefel uchel o aelodau dwyieithog yn y tîm:

- Mae 7 yn dweud eu bod yn rhugl
- Mae 7 yn dweud bod ganddynt sgiliau lefel uwch
- Mae 2 yn dweud bod ganddynt sgiliau lefel ganolradd
- Mae 1 yn dweud bod ganddi sgiliau lefel sylfaenol
- Mae 8 yn dweud na allant siarad Cymraeg neu eu bod ar lefel mynediad

Fe wnaethon ni hysbysebu ar gyfer 2 swydd lle'r aseswyd bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol (1 Swyddog Gweinyddol ac 1 Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor) a 3 swydd lle'r aseswyd bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol (2 Swyddog Polisi ac 1 Swyddog Cyfranogiad).

## Dyletswydd Cydraddoldeb

Rydyn ni wedi cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus trwy gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2016 – 2020, sy'n amlinellu sut rydyn ni'n bwriadu gweithio tuag at sicrhau bod plant a phobl ifanc yn tyfu i fyny mewn gwlad lle mae cydraddoldeb a hawliau dynol plant yn hanfodol i'r dull o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi pennu pedwar amcan cydraddoldeb strategol cyffredinol:

1. Bod ein harweinyddiaeth a'n llywodraethiant yn sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn ein holl brosesau cynllunio
2. Darparu gwasanaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ac sy'n sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ganolog i sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u cyflwyno
3. Datblygu a hyrwyddo adnoddau a gwybodaeth i alluogi eraill i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir
4. Cyflogaeth, cyflog a hyfforddiant: creu gweithle cefnogol, cynhwysol a grymusol trwy hybu'r arferion gorau o ran rheoli pobl a pherfformiad, gan ddefnyddio tystiolaeth gysylltiedig â chydraddoldeb.

- Mae ein cynnydd o ran cyflawni'r amcanion hyn yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob chwarter yng nghyfarfod y tîm rheoli.

# PROSESAU

## GWEITHREDIADOL

### 1. Ystadegau Rhywedd y Gweithlu

**Nifer yr unigolion ar 31 Mawrth 2017 yn ôl rhywedd, gan gymharu â data poblogaeth cyfrifiad 2014: Cymru (3,092,000)**

| Rhywedd | Comisiynydd Plant Cymru (CPC) | | Cymru | | % Y gwahaniaeth o'i gymharu â'r boblogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Gwryw** | 6 | 25 | 1,500,000 | 49 | -24 |
| **Benyw** | 18 | 75 | 1,560,000 | 51 | 24 |

Nid yw'r rhaniad rhywedd yn y sefydliad ar 31 Mawrth 2017 yn adlewyrchu'r rhaniad rhywedd yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Bu gostyngiad bychan yn nifer yr aelodau gwryw o staff yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, o 37% ar 31 Mawrth 2015 i 28% a 25% yn eu tro yn 2016 a 2017, fel y gwelir o'r tabl isod. Fodd bynnag, o ystyried bod cyfradd gyflogaeth y Deyrnas Unedig (yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol) 10% yn uwch yn achos dynion, nid ydym mewn gwirionedd yn pryderu rhyw lawer am y ffaith bod mwy o fenywod yn manteisio ar gyfleoedd yn ein sefydliad.

| Rhywedd | 31 Mawrth 2017 | | 31 Mawrth 2016 | | 31 Mawrth 2015 | | 31 Mawrth 2014 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| **Gwryw** | 6 | 25 | 6 | 28.6 | 9 | 37.5 | 9 | 31 |
| **Benyw** | 18 | 75 | 15 | 71.4 | 15 | 62.5 | 20 | 69 |

### 2. Ystadegau Oed y Gweithlu

**Nifer yr unigolion yn ôl oed ar 31 Mawrth 2017**

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 (4%) | 5 (21%) | 8(33%) | 7 (29%) | 3(13%) | 0 |

Ar hyn o bryd cynrychiolir pob ystod oed yn y sefydliad ac eithrio 65 a throsodd.

**3. Ystadegau Rhywedd a Chyflogau'r Gweithlu**

**Nifer yr unigolion yn ôl rhywedd, band cyflog, math o gontract a phatrwm gwaith ar 31 Mawrth 2017:**

| Swydd | Ll/A gwryw parhaol | Ll/A gwryw dros dro | Rh/A gwryw parhaol | Rh/A gwryw dros dro | Ll/A benyw parhaol | Ll/A benyw dros dro | Rh/A benyw parhaol | Rh/A benyw dros dro | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Band Tîm £17- 21k y flwyddyn | | | | | 1 | 1 | | | **2** |
| Band Swyddog 3 £23 – 26k y flwyddyn | | | | | | | 2 | | **2** |
| Band Swyddog 2 £29 – 34k y flwyddyn | 3 | | | | 5 | 1 | 5 | | **14** |
| Band Swyddog 1 £37 – 44k y flwyddyn | 1 | | 1 | | | | 1 | | **3** |
| Band Swyddog Gweithredol Band 2 £48 – 56k y flwyddyn | 1 | | | | 1 | | | | **2** |
| Comisiynydd £90 -95k y flwyddyn | | | | | 1 | | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **5** | | **1** | | **8** | **2** | **8** | | **24** |

Seiliwyd y system gyflogau o fewn y sefydliad ar y System Gwerthuso a Graddio Swyddi (JEGS). Mae'r system yn dyrannu bandiau i swyddi unigol, wedi'u seilio ar saith ffactor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau cyflog yn gysylltiedig â gofynion penodol swyddi.

Mae dadansoddi ein gweithlu cyfredol yn ôl rhywedd, band cyflog, contract a phatrwm gweithio yn datgelu rhai gwahaniaethau cyflog o ran rhywedd:

**Graddio:**
O blith yr 18 aelod benyw o staff oedd mewn swyddi ar 31 Mawrth 2017, dim ond 3 aelod benyw o staff (16.6% o'r gweithlu benywaidd) sydd wedi'u cyflogi yn y tri band cyflog uchaf, a chydbwysir hynny gan 3 aelod gwryw o staff (50% o'r gweithlu gwrywaidd). Felly, er bod cydbwysedd da rhwng y ddwy ryw yn y tîm arweinyddiaeth ar 31 Mawrth 2017, ar draws y gweithlu cyfan mae'r nifer bach o weithwyr gwryw yn llenwi nifer anghymesur o rolau uwch.  Dim ond aelodau staff benywaidd sydd yn y band cyflog isaf o fewn y sefydliad, a bu hynny'n wir ers 2011, pan ddechreuwyd casglu ystadegau cydraddoldeb ynghylch y gweithlu. Rydyn ni'n ymroddedig i dalu Cyflog Byw i'r aelodau o'n tîm sy'n cael y cyflog isaf.

**Cyflog:**
Er bod mwyafrif y gweithlu yn dal yn fenywod, a bod hynny'n cynyddu, cyflog cyfartalog gweithiwr benyw ar 31 Mawrth 2017 oedd £37,202 a chyflog cyfartalog gweithiwr gwryw oedd £39,964. Fodd bynnag mae lefel y gwahaniaeth yn 16/17 (£2762) yn llai na'r gwahaniaeth yr adroddwyd amdano yn ystod 15/16 (£5482) a'r blynyddoedd cyn hynny, sy'n gadarnhaol.

# PROSESAU

## GWEITHREDIADOL

**Patrwm gweithio:**
O'r 18 aelod o staff benyw a gyflogir, mae 8 (44.4% o'r gweithlu benywaidd) wedi'u cyflogi mewn rolau rhan amser, o gymharu ag 1 gweithiwr gwryw (16.6% o'r gweithlu gwrywaidd).

Mae trefniadau gweithio hyblyg yn rhan bwysig o'n diwylliant ar gyfer llawer o aelodau o'n tîm. Yn ystod cyfnod yr adroddiad roedd 9 aelod o'r tîm (37.5%) yn gweithio oriau rhan amser. Roedd llawer mwy o aelodau'r tîm yn gweithio oriau cywasgedig, ac maen nhw'n cael eu galluogi i weithio o'u cartref neu oddi ar y safle yn rheolaidd.

**4. Ystadegau Beichiogrwydd, Mabwysiadu a Mamolaeth y Gweithlu**

| **Beichiogrwydd mabwysiadu a mamolaeth rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017** | |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr beichiog yn ystod 2016-2017 | **1** |
| Nifer y gweithwyr a gymerodd absenoldeb Mabwysiadu a Mamolaeth yn 2016-2017 | **2** |

**5. Ystadegau Hyfforddiant a Datblygiad y Gweithlu**

**Nifer yr unigolion o blith y gweithwyr a lwyddodd i ddilyn hyfforddiant a gyflwynwyd yn allanol yn ôl rhywedd, band cyflog, math o gontract a phatrwm gweithio yn 2016-2017:**

| Cyflog - Band | Ll/A gwryw parhaol | Ll/A gwryw dros dro | Rh/A gwryw parhaol | Rh/A gwryw dros dro | Ll/A benyw parhaol | Ll/A benyw dros dro | Rh/A benyw parhaol | Rh/A benyw dros dro | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Band Tîm £17- 20k y flwyddyn | | | | | 1 | 1 | | | **2** |
| Band Swyddog 3 £23 – 26k y flwyddyn | | | | | | | 2 | | **2** |
| Band Swyddog 2 £29 – 34k y flwyddyn | 3 | | | | 5 | 1 | 3 | | **12** |
| Band Swyddog 1 £37 – 44k y flwyddyn | 1 | | 1 | | | | 1 | | **3** |
| Band Swyddog Gweithredol Band 2 £48 – 56k y flwyddyn | 1 | | | | 1 | | | | **2** |
| Comisiynydd £90 – 95k y flwyddyn | | | | | 1 | | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **5** | | **1** | | **8** | **2** | **6** | | **22** |

Yn ystod blwyddyn ariannol 2016 - 2017 rydyn ni'n falch o adrodd bod pob aelod o'r tîm (ac eithrio'r rhai oedd ar absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu) wedi cymryd rhan mewn dysgu a datblygu a ddarparwyd yn allanol. Mae hwn yn gynnydd sylweddol ar niferoedd y flwyddyn flaenorol, lle na wnaeth ond 3 gweithiwr gais a chael eu cefnogi i ddilyn cyfle hyfforddi a gyflwynwyd yn allanol.

Yn ogystal â hyn, yn ystod y 3 blynedd blaenorol, anaml y gwnaeth gweithwyr o'r Band Tîm a'r Band Gweithredol gais am hyfforddiant a gyflwynwyd yn allanol, ond yn 2016-2017 gwnaeth gweithwyr o bob band cyflog gais, ac fe'u cefnogwyd i ddilyn cyfleoedd hyfforddi.

**6. Iechyd a Llesiant y Gweithlu**

Mae iechyd a llesiant corfforol a meddyliol ein tîm yn bwysig i ni. Nifer cyfartalog y diwrnodau o absenoldeb fesul gweithiwr yn ystod cyfnod yr adroddiad oedd 6.6 diwrnod, sy'n is na chyfartaledd y sector cyhoeddus a adroddwyd gan Arolwg Rheoli Absenoldeb CIPD yn 2016, sef 8.5 diwrnod fesul gweithiwr, ac mae'n cyfateb i'r ffigur cyffredinol ar gyfer pob sector, sef 6.3 diwrnod fesul gweithiwr.

**7. Lefelau'r Gweithlu ac Ymgysylltu**

Rydyn ni'n ymroddedig i gynnal arolwg staff bob 2 flynedd i helpu i fesur 'profiad y gweithiwr', ac rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth honno i gyfrannu at gylch parhaus o welliannau mewn perthynas ag arferion pobl.

Pan gynhaliwyd yr arolwg ym mis Tachwedd 2016 gwahoddwyd 23 o bobl i gwblhau'r arolwg, heb gynnwys y Comisiynydd. Daeth 19 o holiaduron wedi'u llenwi i law erbyn y dyddiad cau, sef cyfradd ymateb o 82%, sy'n uwch na'r arfer. Mae cyfradd ymateb uchel eleni yn golygu y gallwn ni fod yn fwy hyderus wrth ystyried bod y canlyniadau'n adlewyrchiad teg o brofiad y gweithwyr ar yr adeg benodol hon.
Yn achos 74% o'r cwestiynau gwelwyd gwelliant yn y lefelau boddhad, arhosodd y lefelau yr un fath yn achos 15% o'r cwestiynau, ac yn achos 10% o'r cwestiynau gwelwyd gostyngiad yn y lefelau boddhad.

Rhoddodd y canlyniadau hyn hwb cadarnhaol i'r tîm, a sicrhau bod gennym ni ffocws o ran meysydd i'w gwella. Byddwn ni'n parhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o fesur ein cynnydd a chanfod barn aelodau'r tîm am y sefydliad.

# PROSESAU

## GWEITHREDIADOL

### Pobl y Comisiynydd Plant

- Mae mwyafrif yr aelodau staff bellach yn cael hyfforddiant yn y Gymraeg, yn ôl lefel eu sgiliau
- Mae 20 aelod o staff wedi cael eu hyfforddi ar gwrs y Gymdeithas Rheoli Prosiectau, a safodd 16 aelod o staff arholiad y dystysgrif
- Lefelau salwch: absenoldeb o 2.8% eleni

### Plant a phobl ifanc yng Nghymru

- Fe wnaethon ni ymgysylltu â 10550 o blant a phobl ifanc
- Bu'r Comisiynydd yn annerch mewn 36 o gynadleddau ar faterion cysylltiedig â'n cynllun tair blynedd
- Fe wnaethon ni ymdrin â 528 o ymchwiliadau unigol ac achosion cyngor
- Mae ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd yn uwch nag erioed: roedd bron 20% o'r plant a gymerodd ran mewn arolwg gan Beaufort Omnibus wedi clywed am Gomisiynydd Plant Cymru

### Cynaliadwyedd Ariannol a Gwerth am Arian

- Mae rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Llywodraethu a'r datganiad ariannol (gweler tudalennau 58 ymlaen)
- Secondiwyd tri aelod o staff i swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Swyddogion Adnoddau Dynol, Cyllid a Pholisi.



# COMISIYNYDD PLANT CYMRU
# CYFRIFON 2016-17

# ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRHAU RISG I GOMISIYNYDD PLANT CYMRU 2016-17

**Diben yr Adroddiad Blynyddol**
Mae'n ofynnol bod y Pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei waith, fel y nodwyd yn y Cylch Gorchwyl cytunedig.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd Plant yn falch, felly, o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2017.

**Cyflwyniad**
Yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17 cwblhaodd y Comisiynydd newidiadau radical i'w swyddfa ac i'w strwythur llywodraethu.

Parhaodd y Pwyllgor a'i Gadeirydd i ymwneud yn fanwl â chynghori ar agweddau ar y newidiadau oedd yn ofynnol. Gan mai ni oedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd oedd yn dod i ben, ymgynghorwyd â ni ynghylch pob agwedd ar y newidiadau, ac wrth i'n tymor ddod i ben, roedden ni'n falch o fedru cadarnhau cynigion y Comisiynydd; cynnal cyfarfod ar y cyd ag aelodau o'r Pwyllgor newydd; a gweld penodi Aine Denvir a Iolo Doull i rolau yn y strwythur newydd, gan ddarparu elfen o ddilyniant rhwng y ddwy drefn. Daliodd y Pwyllgor ati i gyflawni ei gyfrifoldebau yng nghyswllt archwilio a risg, materion polisi, datblygiadau strategol a chynllun gwaith blynyddol y Comisiynydd.

**Aelodaeth**
Yn ystod y flwyddyn dyma oedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio:-

| Aelod | Cofnod presenoldeb |
|---|---|
| Wyn Mears – Cadeirydd | 100% |
| Ian Summers | 100% |
| Iolo Doull | 75% |
| Aine Denvir | 75% |

**Taliadau cydnabyddiaeth**
Ni dderbyniodd yr aelodau unrhyw daliadau cydnabyddiaeth, yn unol â'r polisi a sefydlwyd gan y Pwyllgor, ond gellid talu'n ôl iddynt am gostau teithio cytunedig a ddaethai i'w rhan.

**Amlder Cyfarfodydd**
Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio yn Abertawe a Chaerdydd ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn 2016-17:-

2016 Mai, Gorffennaf, Hydref

2017 Chwefror

Roedd y Comisiynydd Plant a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol bob amser yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.
Roedd cynrychiolwyr yr archwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn bresennol yn rheolaidd yn y cyfarfodydd.

**Gwaith yr Agenda**
Roedd y materion cyson ar yr agenda yn cynnwys:-

- Adroddiadau archwilio mewnol
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Materion archwilio allanol
- Newidiadau i'r gofrestr risgiau
- Llywodraethu a threfniadau rheoli mewnol

Cawson ni wybod yn gyson hefyd am gynnydd rhaglen waith y Comisiynydd, a chroesawyd mewnbwn y Pwyllgor gan y tîm staff.

**Prif Waith y Pwyllgor Archwilio**
**Archwilio Mewnol**
Roedd y Pwyllgor yn falch o dderbyn adolygiad o Archwilio Mewnol yn 2015-16 a ddaeth i'r casgliad bod gan y Comisiynydd fframwaith digonol ac effeithiol yn ei le ar gyfer rheoli risg, llywodraethu, a rheolaeth ariannol yn y meysydd oedd wedi cael eu hadolygu yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y ffaith bod yr adroddiad yn cyfleu'r sefydliad mewn goleuni ffafriol yn ystod cyfnod o bontio a newid yn rhoi sicrwydd i ni, a nododd y Pwyllgor fod y dull o ganfod a lliniaru risgiau wedi cael ei ailwerthuso.

Yn ystod y flwyddyn, croesawyd Deloitte yn Archwilwyr Mewnol newydd a derbyniodd y Pwyllgor gynllun 3 blynedd oedd yn cynnwys gwaith archwilio hanfodol megis cynllunio, rheoli a gweinyddu archwilio. Byddai'r Cynllun yn cael ei adolygu'n barhaus i ganfod unrhyw newidiadau angenrheidiol i adlewyrchu blaenoriaethau newidiol ac anghenion archwilio oedd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys adolygiad o'r strwythur llywodraethu mewnol newydd ar ddiwedd ei ddeuddeg mis cyntaf.

**Cyfrifon Blynyddol ac Archwilio Allanol**
Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol oedd yn datgan ei fod yn bwriadu cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod y datganiadau ariannol yn wir ac yn deg, heb unrhyw afreoleidd-dra. Ni chanfuwyd unrhyw elfennau gwallus yn y datganiadau oedd heb eu cywiro eto.

**Diweddglo**
Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar lefel ac ansawdd yr archwilio mewnol ac allanol yn 2016-17 fel y mae'n ymwneud â threfniadau'r Comisiynydd ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu corfforaethol ehangach a phrosesau canfod a rheoli risgiau. Ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i gasgliadau ei hun, gall y Pwyllgor roi sicrwydd i'r Comisiynydd fod y trefniadau sydd ar waith yn briodol ac wedi bod yn gweithredu'n effeithiol.

**Trefniadau llywodraethu newydd**
Croesawodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu newydd, ar sail y safonau llywodraethu da ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a amlygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fel model arfer da a seiliwyd ar Egwyddorion Nolan. Mae'n cynnwys gwybodaeth am reoli risgiau, rheoli prosiectau, cynllunio strategol, datblygiad personol a phaneli ymgynghorol.

**Diolchiadau**
Wrth i'w dymor ddod i ben carai'r Pwyllgor fynegi ei werthfawrogiad am ymroddiad y ddau Gomisiynydd a fu'n cyflawni'r swydd. Mae'r ddau ohonynt wedi bod yn barod i gydweithio'n agos â'r aelodau, i ymgynghori ar ystod eang o faterion gweinyddu a llywodraethu, ac i sicrhau nad ydym wedi colli ein ffocws ar anghenion plant yng Nghymru wrth i ni gyflawni ein cyfrifoldebau. Mae'r Aelodau hefyd yn gwerthfawrogi cymorth parod Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, Tony Evans, ac Ysgrifennydd y Pwyllgor, Monica Roberts, wrth gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei waith yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

Rydym ni'n hyderus y bydd y strwythur llywodraethu newydd yn amhrisiadwy i'r Comisiynydd wrth iddi gyflawni ei rôl, a dymunwn yn dda i'r Cadeirydd newydd wrth iddi gychwyn ar ei chyfnod yn y swydd.

**Wyn Mears**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg,
2016-17
31ain o Orffennaf 2017

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

**Cyflwyniad**
Sefydliad annibynnol sy'n ymdrin â hawliau dynol plant yw Comisiynydd Plant Cymru. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant. Mae dwy gyfraith yn nodi'r rheolau ynghylch sut gall hi wneud ei gwaith, ac yn rhoi pwerau penodol iddi, sef Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000).

**Dyma grynodeb o bwerau'r Comisiynydd**
- Y pŵer i adolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth mewn cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd;
- Y pŵer i adolygu sut mae cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd yn ymarfer eu swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau), gan gynnwys Llywodraeth Cymru;
- Y pŵer i archwilio achosion sy'n ymwneud â phlant unigol;
- Y pŵer i roi cymorth i blant unigol; a hefyd
- Y pŵer i gyflwyno sylwadau i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n destun pryder iddi ac nad oes ganddi bŵer i weithredu yn eu cylch.

Does dim pwer gan y Comisiynydd i weithredu ar y materion hyn:

- Materion sydd heb eu datganoli i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys mewnfudo a lloches, tlodi plant, cyfiawnder a phlismona, a phlant yn y lluoedd arfog;
- Lle gall CAFCASS (Gwasanaeth Ymgynghorol Plant a'r Llysoedd) weithredu;
- Lle mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau yng nghyswllt achosion teulu; a
- Rhag gwneud ymholiadau ynghylch neu adrodd ar unrhyw fater sydd neu a fu'n destun achos cyfreithiol.

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn ei swydd fel Comisiynydd ar 20fed Ebrill 2015, ar ôl cael ei phenodi gan Brif Weinidog Cymru, am gyfnod o saith mlynedd. Cychwynnodd yr uwch swyddogion eraill ar eu penodiadau rhwng mis Mai 2006 a mis Awst 2016, ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd o dan Atodlen 2 paragraff 4 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

**Uwch swyddogion**
Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel Tîm Rheoli yn ystod y flwyddyn:

- **Yr Athro Sally Holland** - Comisiynydd Plant Cymru;
- **Eleri Thomas** – Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd Plant, tan 31 Mai 2016;
- **Tony Evans** - Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, tan 31 Gorffennaf 2016 a Phennaeth Cyllid o 1af Awst 2016;
- **Andy Wallsgrove** – Pennaeth Ymarfer a Chyfranogiad;
- **Sara Jermin** – Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, o 1af Awst 2016;
- **Amanda Evans** – Pennaeth Adnoddau Dynol; a
- **Hywel Dafydd** – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**
Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli yn swyddfa'r Comisiynydd a digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf, ac yn cynnwys swyddogion uwch o Swyddfa'r Comisiynydd ac aelodau Anweithredol. Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yw:

- **Wyn Mears** – Ymgynghorydd Busnes a Chyn Gyfarwyddwr Cymdeithas y Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig;
- **Ian Summers** – Cyn Bartner yn Swyddfa Archwilio Cymru;
- **Dr Iolo Doull** – Pediatregydd Resbiradol Ymgynghorol yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd; ac
- **Aine Denvir** – Cyfreithiwr Gofal Plant.

**Ariannu**
Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2016-17 derbyniodd y Comisiynydd £1.543 miliwn (2015-16: £1.718 miliwn) i gyllido gweithgareddau'r Comisiynydd.

**Fformat y cyfrifon**
Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru. Mae copi o'r cyfarwyddyd hwnnw ar gael oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter, Ffordd Ffenics, Abertawe, SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017, ac maent yn adlewyrchu alldro asedau, rhwymedigaethau ac adnoddau'r Comisiynydd Plant. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

**Canlyniadau ar gyfer y Flwyddyn**
Dengys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wariant o £1.409 miliwn ar gyfer y cyfnod (2015-16: £2.048 miliwn). Y gweddill yn y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £215,000 (2015-16: £78,000).

Yn ystod 2016-17 newidiodd staff y Comisiynydd i 20.7 (cyfwerth amser llawn) o 23.1 (cyfwerth amser llawn) aelod o staff, sy'n cynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser

**Dysgu a Datblygu**
Mae'r Comisiynydd yn parhau i fuddsoddi mewn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y staff. Trwy Broses Arfarnu'r Comisiynydd anogir yr holl staff i nodi anghenion datblygu personol a chofnodi'r anghenion hynny ar Gynllun Datblygu Personol. Proses yw'r Polisi Arfarnu sy'n cysylltu perfformiad a datblygiad unigolion ag amcanion y sefydliad. Prif ddiben y broses honno yw gwella perfformiad pob gweithiwr a'u cyfraniad at gyflawni amcanion trwy roi iddynt y sgiliau a'r amgylchedd priodol er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae'r Swyddfa hefyd yn darparu sesiynau datblygu staff rheolaidd i'r holl weithwyr ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cyflawni ei rhwymedigaethau o ran dysgu a datblygu naill ai yn unol â statud neu lle bernir bod hynny'n hanfodol i'r holl grwpiau o staff, gan gwmpasu pynciau megis Amddiffyn a Diogelu Plant.

**Ymgynghori â'r Staff ac Ymgysylltiad**
Mae'r Comisiynydd yn ymgynghori'n rheolaidd â'i staff ynghylch newidiadau sylweddol i'r sefydliad a blaenoriaethau datblygu trefniadol. Cyflawnir hynny mewn sawl modd, gan gynnwys cyfarfodydd staff, arolygon rheolaidd a'r fewnrwyd. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd i'r holl staff, yn unigol ac mewn grwpiau, gyfrannu at y cynllunio strategol.

**Absenoldeb Staff**
Yn ystod 2016-17, cyfradd absenoldeb salwch swyddfa'r Comisiynydd oedd 2.8 y cant (2015-16: 4 y cant), wedi'i seilio ar ganran o gyfanswm y diwrnodau gwaith oedd ar gael.

**Cynaliadwyedd**
Mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i'r egwyddorion a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef:

- Cymru ffyniannus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru sydd â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus; a
- Chymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang.

Mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i leiafu effaith ei Swyddfa ar yr amgylchedd lle bynnag y bo modd, ac mae'n ceisio lleihau'r effaith honno trwy gymryd y camau canlynol:

- **Deunydd ysgrifennu ac adnoddau swyddfa:** anogir y staff i gyfyngu gymaint â phosib ar eu defnydd o nwyddau traul y swyddfa. Cyfyngir gymaint â phosibl ar argraffu a llungopïo;
- **Teithio:** cynhelir cyfarfodydd trwy ddefnyddio fideo-gynadledda lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl. Mae dros 90 y cant o deithiau swyddogol y Comisiynydd yn digwydd ar drên neu ar feic, ac mae hi'n annog ei staff i wneud yr un peth;
- **Ynni:** mae'r Comisiynydd yn annog pob aelod o staff i fod yn ymwybodol o ynni, ac i ystyried ffyrdd o leihau eu hôl-troed carbon; a
- **Gwaredu Gwastraff:** mae'r Comisiynydd yn ymroddedig i ailgylchu pob gwastraff, yn amodol ar gyfyngiadau allanol.

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

**Cyfle Cyfartal**
Ystyrir pob cais am gyflogaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal am gyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr dderbyn triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig na phatrymau gwaith, ac ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei roi o dan anfantais chwaith gan amodau na gofynion na ellir eu cyfiawnhau.

**Archwilwyr**
Caiff cyfrifon Comisiynydd Plant Cymru eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae Deloitte yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer y Comisiynydd.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth i'r archwilwyr am waith heblaw archwilio.

**Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr**
Mor bell ag y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni; ac mae'r Swyddfa wedi cymryd pob cam y dylasai ei gymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol**
O fewn y flwyddyn ariannol, nid adroddwyd am ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol.  Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth sy'n sicrhau y cyfyngir gymaint â phosib ar ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol.

**Digwyddiadau ers Diwedd y Flwyddyn Ariannol**
Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

O dan Atodlen 2 o'r Ddeddf Safonau Gofal, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Gomisiynydd Plant Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf yr hyn a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon ac ar y sail honno. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddarparu darlun gwir a theg o sefyllfa fusnes Comisiynydd Plant Cymru, yr incwm a'r gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio

- glynu at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifeg a datgelu, a defnyddio polisïau cyfrifeg addas yn gyson;

- dod i benderfyniadau a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;

- datgan a yw'r safonau cyfrifo perthnasol, fel y'u cyflwynir yn yr FReM, wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw achosion pwysig yn y cyfrifon lle na ddilynwyd y safonau hynny; a

- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn sgîl paragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Cyflwynir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Comisiynydd Plant Cymru, yn y Memorandwm ar gyfer Swyddogion Cyfrifyddu a luniwyd gan Drysorlys EM.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Cyfleoedd Cyfartal**
Mae'r Datganiad hwn gan Gomisiynydd Plant Cymru yn nodi ar ba sail y sefydlwyd y corff, sut mae'n cael ei lywodraethu a'i reoli, a sut mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

**Strwythur Llywodraethu**
Isod ceir disgrifiad o'n strwythur llywodraethu. Mae rhagor o fanylion ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael yma: www.complantcymru.org.uk

**Sally Holland**
Comisiynydd Plant Cymru
- Corfforaeth Un Person
- Swyddog Cyfrifyddu

**Y Tîm Rheoli**
Yn cynnwys: Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, Pennaeth Ymarfer, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Pennaeth Adnoddau Dynol

Prif ddiben y Tîm Rheoli yw cynorthwyo a chynghori'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygiad nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Y Tîm Rheoli hefyd sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad, gan reoli gwaith beunyddiol y swyddfa yn unol â gwerthoedd y sefydliad.

**Panel Ymgynghorol y Comisiynydd a'r Panel Pobl Ifanc**
Dan gadeiryddiaeth: Margaret Provis, gyda 10-12 o oedolion a 2-4 o bobl ifanc yn aelodau.

Panel Pobl Ifanc dan gadeiryddiaeth Malin (yng ngogledd Cymru) ac Eve (yn ne Cymru), gyda 15 o aelodau 11-18 oed

Darparu cyngor, cymorth, craffu a her annibynnol i'r Comisiynydd a'i staff er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd Plant yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a gweithredu fel ffrind beirniadol a seinfwrdd i'r Comisiynydd a'i staff o ran polisïau a chynigion, gan lywio polisi a blaenoriaethau strategol.

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**
Dan gadeiryddiaeth: Wyn Mears

Yn cynnwys: 4-6 o aelodau

Cynghori'r Comisiynydd ynghylch prosesau strategol risg, rheoli a llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol.

# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.

Mae fy fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Mae'r trefniadau hyn wedi'u gwreiddio'n gadarn yn 'The Good Governance for Public Services', y cyfeiriodd Swyddfa Archwilio Cymru ato fel model arfer gorau, a'r 'International Framework: Good Governance in the Public Sector'. Mae hefyd yn tynnu ar elfennau o'r 'UK Corporate Governance Code'. Mae'n adeiladu ar Egwyddorion Nolan ar gyfer ymddygiad unigolion mewn bywyd cyhoeddus trwy gyflwyno chwe egwyddor allweddol llywodraethu da mewn cyrff gwasanaeth cyhoeddus.

Isod ceir manylion ynghylch i ba raddau mae'r sefydliad yn llwyddo i fodloni'r safonau hyn, ac eglurir y rhesymau dros addasu'r egwyddorion i gydweddu â'r sefydliad.



# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

## Bod yn eglur ynghylch diben a chanlyniadau'r sefydliad

Mae bod â diben sefydliadol pendant a set o amcanion clir yn un o nodweddion llywodraethu da. Ein dull strategol o gynllunio yw'r dull systemig o bennu ein nodau. Mae'n galluogi'r swyddfa i gadw at ei nod o dan y ddeddfwriaeth a chyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a gyflwynwyd yn fy nghynllun tair blynedd: 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 – 2019'.

Mae'r prosesau cynllunio strategol a blynyddol yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer holl swyddogaethau'r swyddfa; ac yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sefydliadol er mwyn mwyafu ein heffaith dros blant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwireddu atebolrwydd

Yn 2015-16 fe gynhalion ni ein hymgynghoriad mwyaf erioed â phlant a phobl ifanc. Bu dros 7000 o blant, pobl ifanc ac oedolion yn rhan o hyn. Cyfrannodd eu barn a'u safbwyntiau hwy at lunio'r 'Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016 – 2019', sy'n amlinellu fy amcanion strategol ar gyfer y sefydliad.

Fy rôl i yw bod yn llais annibynnol i holl blant a phobl ifanc Cymru. I fod yn bencampwr effeithiol i blant a phobl ifanc, mae angen i mi glywed yn uniongyrchol ganddyn nhw beth dylwn i fod yn codi llais yn ei gylch. Mae strategaeth cyfranogiad y sefydliad yn sicrhau fy mod i'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru ac yn codi llais ar eu rhan, beth bynnag yw eu cefndir neu eu cred. Ar lefel strategol rwyf wedi sefydlu panel ymgynghorol pobl ifanc sy'n rhoi cyngor i mi ac yn craffu ar fy ngwaith.

Fy uchelgais yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Er mwyn sicrhau bod yr uchelgais hon yn cael ei gwireddu, mae fy nhîm yn targedu materion hawliau ar 3 lefel:

1. **Darparu sylfaen ar gyfer polisïau a chyfreithiau hawliau plant:** Bydda i'n gweithio i ddylanwadu ar y rhain a'u newid fel eu bod yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi hawliau plant yn y canol.

2. **Gweithredu'r polisïau a'r cyfreithiau hyn yn effeithiol ledled Cymru ac ar gyfer pob grŵp o blant:** Bydda i'n monitro sut mae hawliau plant yn cael eu cyflawni, yn hybu arfer gorau, ac yn herio'r rhai sydd ddim yn parchu hawliau.

3. **Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc:** Bydda i'n gwrando ar blant a phobl ifanc ac yn ceisio sicrhau newidiadau go iawn yn ansawdd eu bywyd pob dydd a chyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial.

Cefnogir yr holl waith hwn gan ddwy strategaeth fewnol gynhwysfawr ar gyfer materion cyhoeddus a chysylltiadau allanol.

## Capasiti a gallu i fod yn sefydliad effeithiol

Rwy'n cydnabod bod llywodraethu'n cael ei gryfhau gan gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o wybodaeth a phrofiad. Yn sgîl ein polisïau Arfarnu a Goruchwylio, rwy'n hyderus bod gan bob aelod o staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae pob aelod newydd o staff yn dilyn proses sefydlu, ac mae gennym raglen dreigl o ddysgu a datblygu ar gyfer yr holl staff.

Mae ein harolwg staff, bob dwy flynedd, hefyd yn helpu'r sefydliad i fesur profiad y gweithwyr, ac yn cyfrannu at y cylch parhaus o welliannau yng nghyswllt arferion pobl.

Yn 2016, fe es i ati i ailstrwythuro yn sgîl y ffactorau mewnol ac allanol canlynol:

- Arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol oherwydd effaith toriad sylweddol o 10% i'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru
- Argymhellion a wnaed gan adolygiad annibynnol Llywodraeth Cymru o bwerau a chylch gorchwyl y Comisiynydd (Adolygiad Shooter, 2014)
- Canfyddiadau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn sesiynau tystiolaeth gyda chyrff cyhoeddus yn hydref 2014
- Canfyddiadau'r Comisiynydd o arferion gweithio'r sefydliad fel un oedd yn newydd yn ei swydd, yn benodol mewn perthynas â dull gweithredu sefydliad cyfan a rhyngddibyniaeth timau.

Ym mis Mawrth 2017, cwblheais adolygiad o'r ailstrwythuro yn 2016. Roedd yn adlewyrchu'r ffaith mai barn mwyafrif llethol aelodau'r staff oedd bod yr ailstrwythuro wedi arwain at newidiadau cadarnhaol ar gyfer y sefydliad yn gyffredinol.

## Hybu Gwerthoedd i'r Sefydliad ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da trwy Gynnal Safonau Uchel o ran Ymddygiad ac Ymarfer

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion cyflawni, a ddatblygwyd gyda'r staff yn ystod 2015, yn sylfaen ar gyfer ein holl bolisïau gweithredol a staff, yn ogystal â'n strategaeth tair blynedd. Fe'u rhennir gydag aelodau newydd o staff yn ystod y cyfnod sefydlu, ac fe'u cyfathrebir yn allanol ar ein gwefan www.complantcymru.org.uk ac yn ein cyhoeddiadau strategol, gan gynnwys ein strategaeth tair blynedd.

Rydym yn ymroddedig i alluogi a grymuso gweithwyr i gyrraedd nodau unigol, tîm a strategol, ac yn barnu bod y broses arfarnu flynyddol, pennu amcanion a phrosesau cynllunio datblygiad personol yn rhan hanfodol o gyflawni hynny. Proses yw ein Polisi Arfarnu sy'n cysylltu perfformiad a datblygiad unigolion ag amcanion corfforaethol y sefydliad. Prif ddiben y broses yw gwella perfformiad pob gweithiwr a'u cyfraniad at gyflawni ein hamcanion strategol trwy roi iddynt y sgiliau a'r amgylchedd priodol er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

Mae'r Tîm Rheoli yn adolygu'r polisïau hyn yn rheolaidd ac yn monitro cydymffurfiaeth â hwy. Mae'r polisïau hyn hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn eu tro. Caiff y polisïau eu dyddio wrth eu cwblhau, a nodir dyddiadau adolygu newydd ar ôl eu hadolygu.

## Gwneud Penderfyniadau Gwybodus a Thryloyw sy'n Destun Craffu Effeithiol a Rheoli Risg

Fel corfforaeth un person, fi sydd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn y swyddfa. Fodd bynnag, rwyf wedi dirprwyo agweddau ar y penderfyniadau gweithredol i'r Tîm Rheoli. Mae rolau a chyfrifoldebau'r holl staff wedi'u diffinio'n glir yn eu disgrifiadau swydd ac o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae gan bob gweithiwr amodau cyflogaeth a disgrifiad swydd clir, sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae gofyn bod pob aelod o staff yn gweithio oddi mewn i'n dull rheoli prosiectau, sy'n sicrhau bod ein hallbynnau a'n canlyniadau arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu diffinio'n glir a'u cyflawni. Mae cynllun rheoli prosiect cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob prosiect, a'i gadw'n ganolog, er mwyn i'r holl staff fedru ei gyrchu. Mae manylion ein holl waith prosiectau i'w gweld yma www.complantcymru.org.uk.

Mae'r trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael eu hysgrifennu i lawr a'u nodi yn y cofnodion, a rennir gyda'r holl staff yn fisol ac yn chwarterol yn eu tro. Rhennir gwybodaeth gritigol neu sensitif o ran amser gyda'r tîm staff trwy e-bost neu yn ein cyfarfodydd 'Fika' wythnosol, sy'n cynnwys pob aelod o staff. Mae canlyniadau trafodaethau gyda'r paneli ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn cael eu rhannu gyda'r staff, ac mae aelodau o'r tîm yn chwarae rhan yn y cyfarfodydd hynny fel sy'n briodol.

Mae'r system reoli fewnol yng nghyswllt risg yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o safbwynt cyflawni amcanion strategol y sefydliad a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Mae hynny'n cynnwys gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny ac effaith eu gwireddu ar y sefydliad ac ar blant a phobl ifanc, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiwastraff. Mae'n ofynnol hefyd bod staff, yn eu rôl fel rheolwyr prosiectau, yn nodi risgiau a materion sy'n codi trwy ein dull gweithredu ar gyfer rheoli prosiectau.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Tîm Rheoli wedi cynnal proses drylwyr o ganfod risgiau ac wedi ailfodelu'r rhestr o risgiau i sicrhau ei bod yn cyfateb yn llwyr i gynllun strategol tair blynedd y Comisiynydd, yn dilyn hyfforddiant gan ein harchwilwyr mewnol, Deloitte.

Bu rheoli risg yn ofalus yn destun adolygiad Archwilio Mewnol eleni, a sicrhawyd lefel raddio gref o ran sicrwydd. Bu ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hefyd yn bwrw golwg dros effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg.

Mae rheolaeth ariannol wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reolaidd i reolwyr a chyfres o weithdrefnau ariannol clir, sydd i'w gweld yn llawlyfr Cyllid y sefydliad. Mae'r broses o adolygu gwybodaeth i reolwyr yn cynnwys monitro ac adrodd rheolaidd ar y gyllideb. Bob mis mae'r Tîm Rheoli yn cael eu hysbysu ynghylch sut mae'r gwariant yn cyfateb i'r gyllideb, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael yr wybodaeth honno bob chwarter. Mae ein dull gweithredu seiliedig ar reoli prosiectau hefyd yn gofyn bod pob rheolwr prosiect yn datblygu cyllideb fanwl, a rhoddir adroddiad misol ar y rheiny yn y Tîm Rheoli.


Rwyf hefyd yn cymryd materion sy'n ymwneud â thwyll a chamweinyddu o ddifri calon. Mae gennym bolisïau ar waith ynghylch datgelu camarfer, gwrthweithio twyll, Côd Ymddygiad a chwynion.

# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

## Cyflawni'n effeithiol o ran swyddogaethau a rolau a ddiffiniwyd yn glir

Mae'r sefydliad yn cynnwys tair swyddogaeth ryng-gysylltiedig sy'n cydweithio ar ffurf tîm cyfan. Rydym yn cyflawni rhaglen waith sy'n gwbl ryngddibynnol. Mae'r swyddogion yn cyflawni rolau arbenigol yn ôl eu harbenigedd, ond maent yn dibynnu ar rannau eraill o'r sefydliad i gyflawni'r rhaglen waith.

Mae gan yr holl bwyllgorau a phaneli ymgynghorol sy'n gysylltiedig â'r Comisiynydd Gylch Gorchwyl, a adolygir yn flynyddol, ac a gyhoeddir ar ein gwefan www.complantcymru.org.uk.
.




Fel yr amlinellwyd yn ein Polisi a'n Proses Cynllunio Strategol, mae'r Tîm Rheoli yn adolygu cynnydd yn erbyn ein holl brosiectau, a amlinellir yn y cynllun gwaith blynyddol, bob mis. Ar sail flynyddol, trwy'r Adroddiad Blynyddol, byddaf yn rhoi sylw i'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol.

Eleni hefyd crëwyd fframwaith gwerthuso sy'n galluogi'r sefydliad i ddangos bod ein gwaith craidd a'n prosesau mewnol yn cael eu cyflawni'n effeithiol, ac mae'n canolbwyntio ar bedair elfen: pobl y Comisiynydd, prosesau sefydliadol, cynaliadwyedd ariannol a gwerth am arian, a phlant a phobl ifanc. Trafodir yr adroddiadau hyn bob mis yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli a phob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Mae dau banel ymgynghorol newydd ar waith o eleni ymlaen. Mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys gofyniad penodol i gynnig cyngor pwyllog i mi a'm staff, yn ôl y galw, er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a chyflawni fy ngofynion gwaith.

**Adolygu Effeithiolrwydd**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system lywodraethu, ac yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus yng Nghymru, a ydwyf i'n cydymffurfio â Chôd Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet.  Hysbysir fy adolygiad o'r system honno gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr at y rheolwyr ac adroddiadau eraill.  Rwyf hefyd wedi derbyn cyngor ynghylch effeithiolrwydd y system lywodraethu trwy waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau mewnol ac i ymdrin ag unrhyw wendidau wrth iddynt godi.

Roedd y broses a ddefnyddiwyd wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu fel a ganlyn:

- bu'r Tîm Rheoli wrthi ar y cyd yn trafod ac yn adolygu gweithrediad y mesurau rheoli ariannol mewnol ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd;
- cwblhaodd archwilio mewnol adolygiad o effeithiolrwydd mesurau rheoli mewnol allweddol; a
- chyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn a chynghori ar oblygiadau sicrwydd a roddwyd ynghylch llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a mesurau rheoli, digonoldeb y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio.

Deloitte fu'n darparu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer fy swyddfa yn ystod y cyfnod. Maent yn gweithredu'n unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd fy system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant.

Ar sail fy adolygiad effeithiolrwydd, nid oes materion rheolaeth fewnol arwyddocaol yn codi a lle bo hynny'n berthnasol, rwy'n cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Côd Llywodraethu Corfforaethol.

**Rhaglen o Welliant ar gyfer Materion Llywodraethu**
Gyda'm Tîm Rheoli byddaf yn parhau i fonitro'r amgylchedd rheoli mewnol a sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae dyletswydd gyfreithiol arnaf fi i reoli'n briodol yr adnoddau a ddarparwyd ar fy nghyfer er mwyn i'm swyddfa gyflawni ei rhwymedigaethau statudol. Rhaid i mi sicrhau hefyd fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod fy swyddfa'n cael ei rheoli a'i llywodraethu'n briodol. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn wedi darparu disgrifiad manwl o'r trefniadau hyn.

**Ardystiad gan y Swyddog Cyfrifyddu**
Rwyf wedi fy sicrhau bod y system lywodraethu a fu'n weithredol yn fy swyddfa yn ystod 2016-17 wedi bod yn un gadarn. Ar sail yr adolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol, rwyf wedi fy sicrhau bod y trefniadau presennol yn diwallu anghenion y swyddfa ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau.

**Yr Athro Sally Holland,**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
27 Gorffennaf 2017

# ADRODDIAD TALIADAU CYDNABYDDIAETH A STAFF

**Taliadau i Aelodau Uwch o'r Tîm Rheoli**

Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r taliad i Gomisiynydd Plant Cymru, yn unol ag Atodlen 2 paragraff 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Yn achos aelodau eraill y Tîm Rheoli, pennwyd y taliadau cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru, ar sail cyfarwyddyd gan arbenigwyr recriwtio yn y gwasanaeth sifil.

Mae'r adrannau canlynol, a fu'n destun archwilio, yn darparu manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn y swyddogion uchaf sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig yn swyddfa'r Comisiynydd:

| | **Cyflog £000*** | | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)*** | | **Buddion Pensiwn (i'r £100 agosaf)*** | | **Cyfanswn £000*** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 |
| **Yr Athro Sally Holland**<br>Comisiynydd Plant Cymru | 85-90 | 85-90 | - | - | 35,000 | 33,000 | 120-125 | 120-125 |
| **Eleri Thomas**<br>Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd Plant, tan 31 Mai 2016 | 5-10 | 70-75 | - | - | 2,000 | 28,000 | 7-12 | 100-105 |
| **Andy Wallsgrove**<br>Pennaeth Ymarfer a Chyfranogiad. | 55-60 | 55-60 | - | - | 17,000 | 36,000 | 72-77 | 95-100 |
| **Tony Evans**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol tan 31 Gorffennaf 2016 ac yna Pennaeth Cyllid o 1af Awst 2016. | 45-50 | 55-60 | - | - | 19,000 | 33,000 | 64-69 | 90-95 |
| **Sara Jermin**<br>Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, o 1af Awst 2016** | 35-40 | - | - | - | - | - | 35-40 | - |

* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.
**Mae Sara Jermin yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Partneriaeth, a thalwyd £4,500 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod.

**Taliadau Canolrif**

| | 2016-17 | | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Band taliadau'r unigolyn y telir y symiau mwyaf iddo/iddi (£000) | 85-90 | Band taliadau'r unigolyn y telir y symiau mwyaf iddo/iddi (£000) | 85-90 |
| Cyfanswm y Canolrif | 30,538 | Cyfanswm y Canolrif | 34,750 |
| Cymhareb | 1:2.87 | Cymhareb | 1:2.52 |

Mae'n ofynnol fy mod yn datgelu'r berthynas rhwng y taliad a wnaed i'r unigolyn a dderbyniodd y cyflog uchaf a chanolrif taliadau'r gweithwyr. Band taliadau'r unigolyn a dderbyniodd y taliad uchaf yn 2016-17 oedd £85-£90,000 (2015-16: £85-£90,000). Rwyf wedi defnyddio pwynt canol yr ystod hon i gymharu'r symiau hyn, a chael cymhareb o 2.87 gwaith (2015-16: 2.52) taliad canolrif y gweithwyr. Mae cyfanswm y taliadau yn cynnwys y cyflog a'r buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau cyflogwr i bensiwn na gwerth trosglwyddo ariannol cyfatebol pensiynau.

**Iawndal a dalwyd, Dyfarniadau Sylweddol i Uwch Reolwyr Blaenorol**

Yn ystod y cyfnod o ailstrwythuro dilewyd swydd un uwch reolwr. Cynhwyswyd yr iawndal a dalwyd yn natganiadau ariannol 2015-16.

**Buddion Pensiwn – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**

| | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn*<br>£000 | CETV(i) ar 31.3.17*<br>£000 | CETV(i) ar 31.3.16*<br>£000 | Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol yn CETV*<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Athro Sally Holland**<br>- Comisiynydd Plant Cymru o'r 20fed Ebrill 2015. | 0-2.5 | 46 | 22 | 17 |
| **Eleri Thomas**<br>Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Gomisiynydd Plant, tan 31 Mai 2016. | 0-2.5 | 114 | 113 | 1 |
| **Andy Wallsgrove**<br>Pennaeth Ymarfer a Chyfranogiad. | 0-2.5 | 515 | 485 | 9 |
| **Tony Evans**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol tan 31 Gorffennaf 2016 ac yna Pennaeth Cyllid o 1af Awst 2016. | 0-2.5 | 371 | 347 | 8 |
| **Sara Jermin**<br>Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, o 1af Awst 2016. | Nodyn 1 | Nodyn 1 | Nodyn 1 | Nodyn 1 |

Nodyn 1: Mae Sara Jermin yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Partneriaeth, a thalwyd £4,500 o gyfraniadau cyflogwr yn ystod y cyfnod.
* Mae'r wybodaeth hon yn destun archwiliad.

# ADRODDIAD TALIADAU CYDNABYDDIAETH A STAFF

**Y Cynllun Pensiwn**
Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn rhan o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (**classic, premium** neu **classic plus**); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, a thelir am gost y buddion ag arian sy'n destun pleidlais gan y Senedd bob blwyddyn; ac er mai cynlluniau buddion diffiniedig yw'r rhain, nid oes modd datgelu swm eu hasedau a'u hatebolrwydd. Mae'r pensiynau sy'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus a nuvos** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion priodol diffiniedig neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' o ansawdd da, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar ganran o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic, premium, classic plus a nuvos**. Mae'r buddion classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Yn achos y **premium**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **classic,** nid oes cyfandaliad awtomatig. Cyfuniad o'r ddau yw **classic plus** yn y bôn, gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel yn achos y **classic** a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos y **premium**. Yn **nuvos** mae aelod yn crynhoi pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif yr aelod ar gyfer y pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI). Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewiswyd gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle bo'n dewis gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn eu gwaith ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Y pensiwn cronnol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y gall yr aelod ei hawlio wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. Oedran pensiwn yw 60 yn achos aelodau **classic, premium a classic plus** a 65 yn achos aelodau nuvos.

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk.

**(i) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)**
Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol asesedig actiwari y buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod amodol o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu'n berthnasol iddi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Prif Wasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hun. Cyfrifir CETVs o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid ac nid ydynt yn rhoi sylw i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion yn sgîl Treth Lwfans Oes y gall fod angen ei thalu pan dynnir buddion pensiwn.

**(ii) Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano i bob pwrpas gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgîl chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Newidiadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**
O 1af Ebrill 2015 daeth cynllun pensiwn newydd, o'r enw Alpha, yn weithredol. Mae'r cynllun Alpha yn disodli'r cynlluniau **classic, premium, classic plus** a **nuvos.** Trosglwyddodd mwyafrif y staff yn uniongyrchol i Alpha ar 1af Ebrill 2015.

**Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig**

a) Ar gyfer y flwyddyn, roedd y costau staff yn cynnwys y canlynol:

| | **2016-17 £000 Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** | **2015-16 £000 Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Tâl a Chyflogau | 835 | 17 | 852 | 997 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 76 | - | 76 | 79 |
| Costau Pensiwn | 106 | - | 106 | 302 |
| **Is-gyfanswm** | **1,017** | **17** | **1,034** | **1,378** |
| Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan | (44) | - | (44) | (13) |
| **Cyfanswm Costau Net** | **973** | **17** | **990** | **1,365** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu i lawer o gyflogwyr, ond ni all y sefydliadau cyfranogol nodi eu cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cafodd y cynllun ei brisio ddiwethaf gan actiwari ar 31 Mawrth 2007, ond ers y dyddiad hwnnw, ataliwyd prisiadau actiwaraidd o'r Cynllun gan ddisgwyl gweithrediad argymhellion Adolygiad Hutton. Ceir manylion yng Nghyfrifon Adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Budd-dal Ymddeol Sifil - www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2016-17, roedd cyfraniadau cyflogwr o £77,980 yn daladwy i PCSPS (2015-16: £168,808) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 16.7 y cant i 24.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, fel arfer bob pedair blynedd, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu am gost y buddion a dalwyd i bensiynwyr cyfredol yn ystod y cyfnod hwn. Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, neu bensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr.

Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £16,904 i un neu fwy o banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeilaid penodedig (2015-16: 17,040). Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oed, ac yn amrywio o 3 i 12.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy (2015-16: 3 i 12.5 y cant). Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud tâl sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr, hyd at 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Ar ben hynny, roedd cyfraniadau cyflogwr o £972 neu 0.8 y cant o'r cyflog pensiynadwy yn daladwy i PCSPS i dalu am gost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgîl marwolaeth yn ystod gwasanaeth ac ymddeoliad gweithwyr oherwydd afiechyd (2015-16: £750 neu 0.8 y cant). Roedd cyfraniadau o £10,481 yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth ar 31 Mawrth 2017, (2015-16: £dim). Mae'r holl gyfraniadau hyn wedi'u cynnwys yn y costau Pensiwn.

b) Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

| | **2016-17 £000 Staff a Gyflogir yn Barhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** | **2015-16 £000 Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogeion Uniongyrchol | 20.7 | - | 20.7 | 23.1 |
| **Cyfanswm** | **20.7** | **-** | **20.7** | **23.1** |

# ADRODDIAD TALIADAU CYDNABYDDIAETH A STAFF

**Paratoi Adroddiadau ar Gynlluniau Iawndal y Gwasanaeth Sifil ac Eraill - Pecynnau Ymadael:**

| Band costau pecyn ymadael £000 | 2016-17 Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost | 2015-16 Nifer yr diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| < £10 | - | - | - | - | - | - |
| £10-£25 | - | - | - | - | 3 | 3 |
| £25-£50 | - | - | - | - | 3 | 3 |
| £50-£100 | - | - | - | 1 | - | 1 |
| £100-£150 | - | - | - | - | - | - |
| £150-£200 | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl eu math | - | - | - | 1 | 6 | 7 |
| Cyfanswm y gost o ran adnoddau £000 | - | - | - | 79 | 179 | 258 |

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a luniwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Lle bo'r Comisiynydd wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir am y costau ychwanegol gan y Comisiynydd, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir am gostau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Codir costau llawn yr ymadawiad ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn gwneud y penderfyniad. Credydir y symiau sy'n daladwy mewn blynyddoedd i ddod i ddarpariaeth a ddefnyddir pan wneir y taliadau.

**Yr Athro Sally Holland,**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
27 Gorffennaf 2017

# ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

**Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 o dan baragraff 9(2) o atodlen 2 i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Maent yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo a gyflwynwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth y mae'r adroddiad hwnnw'n nodi ei bod wedi cael ei harchwilio.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd yn eu tro**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru o dan y ddeddf honno ac ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd am y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n gofyn fy mod yn cydymffurfio â Safonau Moeseg y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth ddigonol am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol nad oes cam-ddatganiadau pwysig yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol ar gyfer amgylchiadau Comisiynydd Plant Cymru ac wedi cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, mae'n ofynnol fy mod yn casglu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff er mwyn canfod anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a chanfod unrhyw wybodaeth sydd yn ymddangos yn anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad, neu'n anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol pwysig neu anghysondebau, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny o ran fy nhystysgrif a'm hadroddiad.

**Barn ar y Datganiadau Ariannol**

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Comisiynydd Plant Cymru ar 31 Mawrth 2017 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- fe'u paratowyd yn briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyflwynwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

**Barn ynghylch Rheoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr bwysig, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000; ac
- mae'r wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad**

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, lle byddaf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifo priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
1 Awst 2017
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu  Cleient; yw hygrededd gwefan Comisiynydd Plant Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiynydd Plant Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2017

| **Gwariant** | **Nodyn** | **2016-17 £000** | **2015-16 £000** |
|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu: | | | |
| Costau staff | Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth | 990 | 1,365 |
| Dibrisiad | 2.2 | 11 | 21 |
| Costau Gweinyddu Eraill | 2.1 | 408 | 662 |
| | | 1,409 | 2,048 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | | - | - |
| Incwm Arall | | - | - |
| | | - | - |
| Gwariant Net | | 1,409 | 2,048 |
| Llog taladwy/derbynadwy | | - | - |
| Gwariant Net ar ôl llog | | 1,409 | 2,048 |

Gwariant Arall Cynhwysfawr

| | | **2016-17 £000** | **2015-16 £000** |
|---|---|---|---|
| Enillion/(colled) net o ran ailbrisio Peiriannau a Chyfarpar | | - | - |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2017** | 1,409 | 2,048 | |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddwyd amdanynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 84 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2017

| | Note | 2017 £000 | 2017 £000 | 2016 £000 | 2016 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 4 | | 9 | | 16 |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | 60 | | 131 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | **329** | 389 | **204** | 335 |
| **Cyfanswm Asedau** | | | 398 | | 351 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Elfennau masnach ac eraill taladwy | 7 | (92) | (92) | (75) | (75) |
| **Cyfanswm Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 306 | | 276 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 13 | (91) | (91) | (198) | (198) |
| **Cyfanswm Asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau** | | | **215** | | **78** |
| **Ecwiti Trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | | **215** | | **78** |

**Yr Athro Sally Holland,**
Comisiynydd Plant Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
27 Gorffennaf 2017

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 84 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN
# AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL 2016 TAN 31AIN MAWRTH 2017

| | Nodyn | 2016-17<br>£000 | 2015-16<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant Net | Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth/2 | 1,409 | 2,048 |
| Addasu ar gyfer trafodion heblaw rhai ag arian parod | 2 | (11) | (110) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | 5 | (71) | 80 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn elfennau masnach taladwy | 7 | (17) | 45 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 13 | 107 | 23 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | 1,417 | 2,086 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar* | 4 | 1 | 11 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | 1 | 11 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | (1,543) | (1,718) |
| **Cyllido Net** | | 1,418 | 2,097 |
| Cynnydd/(gostyngiad) net o ran arian a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 6 | 125 | (379) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | | 204 | 583 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | | 329 | 204 |

*Nid yw'r asedau ychwanegol a brynwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys yr asedau hynny a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ond y talwyd amdanynt ag arian parod yn ystod y cyfnod ariannol dilynol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 84 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# DATGANIAD O NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31AIN MAWRTH 2017

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 |
|---|---|---|
| **Gweddill ar 31ain Mawrth 2015** | | **408** |
| Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 1,718 |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (2,048) |
| **Gweddill ar 31ain Mawrth 2016** | | **78** |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2016-2017** | | |
| Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 1,543 |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (1,409) |
| Addasiad ar gyfer eitem nad aeth trwy'r gwariant net | | 3 |
| **Gweddill ar 31ain Mawrth 2017** | | **215** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 84 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# NODIADAU I'R CYFRIFON

**1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifo**
Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyflwynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo a geir yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IFRS), fel y'u mabwysiadwyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiynydd, at ddiben rhoi golwg wir a theg. Fe'i defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau y barnwyd eu bod yn bwysig yng nghyswllt y cyfrifon.

Rydym wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau sydd wedi'u cyflwyno ond nad ydynt yn effeithiol hyd yma, ac sydd heb gael eu mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Prydlesi IFRS16 y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adroddiadau Ariannol (IFRS), mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Nid oes modd rhesymol ar hyn o bryd i amcangyfrif effaith IFRS16, sydd wedi'i gyflwyno gan Fwrdd Rhyngwladol Safonau Cyfrifo (IASB), ond sydd heb ei fabwysiadu eto gan yr Undeb Ewropeaidd, a bydd yn berthnasol o 2019-20.

Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru isod.

**1.1 Confensiwn Cyfrifo**
Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol gan fod Comisiynydd Plant Cymru yn barnu nad oes pwys i effaith ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol.

**1.2 Ariannu**
Yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru yw Llywodraeth Cymru trwy grant blynyddol, sy'n cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cydnabyddir y grant yn y cyfnod pryd y darperir y gwasanaethau.

**1.3 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar**
Mae'r Comisiynydd wedi prisio'r holl asedau anghyfredol yn ôl eu cost hanesyddol, gan nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio o bwys, ym marn y Comisiynydd. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafiad asedau unigol yw £1,000. Grwpiwyd niferoedd mawr o'r un math o asedau gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

**1.4 Dibrisiad**
Darperir dibrisiad ar gyfraddau y cyfrifir y byddant yn diddymu gwerth asedau nad ydynt yn gyfredol mewn rhandaliadau cyfartal dros y cyfnod a amcangyfrifir ar gyfer eu hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Offer TGCh | 3 blynedd |
| • Celfi | 5 mlynedd |
| • Cyfarpar Swyddfa | 5 mlynedd |
| • Gosodiadau a Ffitiadau | 5 mlynedd |
| • Cerbydau | 5 mlynedd |

Codir am ddibrisiad blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael.

**1.5 Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr**
Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredu y Comisiynydd. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar sail cost lawn. Dosbarthir yr holl wariant fel gwariant gweinyddu.

**1.6 Treth ar Werth**
Nid yw'r Comisiynydd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phwrcasau asedau sefydlog gyda TAW wedi'i gynnwys, gan na ellir adennill TAW.

**1.7 Pensiynau**
Mae staff y Comisiynydd wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Cydnabyddir cost elfen buddion diffiniedig y cynllun yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod pryd y bydd yn cael mantais o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronnol i'r PCSPS. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb ar y PCSPS. Yng nghyswllt elfennau cyfraniad diffiniedig y cynllun, mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu talu.

**1.8 Prydlesi**
Dosbarthir prydlesi asedau lle mae holl risgiau a manteision perchnogaeth ar ased wedi'i phrydlesi i bob pwrpas yn nwylo'r Comisiynydd ar ffurf prydlesi cyllidol. Cofnodir yr ased fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o isafswm y taliadau prydles. Codir y taliadau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a chodir tâl cyllid ar sail y gyfradd llog sy'n ddealledig yn y brydles.

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fesul symiau cyfartal ar hyd cyfnod y brydles.

**1.9 Adroddiadau Segmentol**
Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau lle'r adroddir am y canlyniadau gweithredu.

**1.10 Treuliau Staff**
Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer absenoldebau tymor byr adferedig sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.

**1.11 Darpariaethau**
Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gontractiol y mae eu hamseru neu eu symiau'n ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen ar gyfer y rhwymedigaeth.

**1.12 Arian Parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo**
Mae'r Comisiynydd yn cadw arian parod, sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif banc masnachol wrth ei dderbyn. Hefyd cedwir arian mân ym mhob un o swyddfeydd y Comisiynydd.

| **2. Costau Gweinyddu Eraill** | **2016-17 £000** | | **2015-16 £000 (Wedi'i ailddatgan)** |
|---|---|---|---|
| **2.1 Costau gweinyddu:** | | | |
| Safleoedd | 100 | | 124 |
| Swyddfa | 56 | | 75 |
| Hyfforddi a recriwtio | 21 | | 36 |
| Teithio a chynhaliaeth | 11 | | 26 |
| Taliadau i archwilio allanol | 18 | | 19 |
| Taliadau i'r Archwilydd Mewnol | 10 | | 10 |
| Cyfathrebu | 40 | | 44 |
| Cyfarpar TGCh | 13 | | 18 |
| Arall | 113 | | 166 |
| Ffïoedd cyfreithiol a phroffesiynol | 26 | | 55 |
| | | 408 | 573 |
| **2.2 Eitemau heblaw arian parod:** | | | |
| - tâl dibrisiad asedau cyffredin | 11 | | 21 |
| - colled ar waredu asedau sefydlog | - | | - |
| - darpariaeth a wnaed o fewn y flwyddyn | - | | 89 |
| | | 11 | 110 |
| | | 419 | 683 |

*Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan er mwyn adlewyrchu addasiad datgelu rhwng llinellau'r gyllideb a chodau'r gyfriflen.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

**3. Gwybodaeth Segmentaidd**

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Barn y Comisiynydd, felly, yw mai mewn un segment yn unig y mae ei swyddfa'n gweithredu, fel yr adroddwyd.

**4. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar**

| | Offer TG<br><br>£000 | Gosodiadau a Ffitiadau<br>£000 | Celfi a Chyfarpar Swyddfa<br>£000 | Cludiant Offer<br>£000 | Cyfanswm<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 273 | 211 | 271 | 49 | 804 |
| Ychwanegiadau | 3 | - | 1 | - | 4 |
| Gwarediadau | (87) | (14) | (61) | (49) | (211) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 189 | 197 | 211 | - | 597 |
| **Dibrisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 262 | 208 | 269 | 49 | 788 |
| Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn | 8 | 1 | 2 | - | 11 |
| Gwarediadau | (87) | (14) | (61) | (49) | (211) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 183 | 195 | 210 | - | 588 |
| Llyfrwerth net Ar 31 Mawrth 2016 | 11 | 3 | 2 | - | 16 |
| Llyfrwerth net Ar 31 Mawrth 2017 | 6 | 2 | 1 | - | 9 |
| **Cyllido asedau:** | | | | | |
| A berchnogir | | | | | |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2017 | 6 | 2 | 1 | - | 9 |
| A berchnogir | | | | | |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2016 | 11 | 3 | 2 | - | 16 |

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Comisiynydd, nid oes dim asedau'n cael eu cyllido trwy brydles ariannol.

**5. Elfennau masnachol derbyniadwy**

| | 2016-17<br>£000 | 2015-16<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Elfennau masnach ac eraill derbyniadwy | - | 89 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 60 | 42 |
| | **60** | **131** |

**6. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo**

| | 2016-17<br>£000 | 2015-16<br>£000 |
|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill | 204 | 583 |
| Newid net yn y gweddillion arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 125 | (379) |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2017 | **329** | **204** |

Roedd yr holl weddillion ar 31 Mawrth ar ffurf daliadau gyda banc Masnachol ac arian mewn llaw.

**7. Elfennau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill**
Symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2016-17<br>£000 | 2015-16<br>£000 |
|---|---|---|
| Trethi a Nawdd Cymdeithasol | 22 | 18 |
| Elfennau masnachol taladwy | 16 | 31 |
| Croniadau | 54 | 26 |
| | **92** | **75** |

**8. Ymrwymiadau o dan brydlesi**
Roedd y Comisiynydd yn ymroddedig i wneud y taliadau canlynol
yng nghyswllt prydlesi gweithredol oedd yn dod i ben

| | 2016-17<br>£000 | | 2015-16<br>£000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol:: | | | | |
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | 50 | 1 | 59 | - |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | 166 | 5 | 199 | - |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - | 17 | - |
| | 216 | 6 | 275 | - |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

**9. Offerynnau ariannol**
Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn gofyn bod rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod yn cael ei datgelu o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol gweithgareddau'r Comisiynydd, a'r dull o gyllido'i gweithrediadau, nid yw ei swyddfa'n cael ei gadael yn agored i'r lefel o risg ariannol mae endidau busnes yn ei hwynebu. Ymhellach, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddu'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn bennaf berthnasol iddynt.  Mae gan y Comisiynydd bwerau cyfyngedig iawn i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd sy'n weddill a chynhyrchir asedau ariannol a rhwymedigaethau gan ei gweithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd, yn hytrach na'u dal i newid y risgiau y mae'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

**Risg Hylifedd**
Ariannir gofynion y Comisiynydd o ran refeniw net ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.  Nid yw ei swyddfa felly yn cael ei gadael yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

**Risg cyfradd llog**
Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau cyfradd llog.

**Risg Arian Tramor**
Nid yw asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd yn cael eu gadael yn agored i risgiau arian tramor.

**Gwerthoedd Teg**
Nid oes gwahaniaeth rhwng llyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau'r Comisiynydd ar 31 Mawrth 2017.

**10. Ymrwymiadau cyfalaf**
Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2017.

**11. Rhwymedigaethau Amodol**
Nid oedd dim rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2017.

**12. Trafodion Partïon Cysylltiedig**
Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, a derbyniodd y Comisiynydd ei hunig ffynhonnell gyllido oddi wrth Lywodraeth Cymru; derbyniodd £1.543 miliwn yn ystod y cyfnod. Cafodd y Comisiynydd nifer bach o drafodion pwysig yn ystod y cyfnod gyda Chyllid y Wlad (taliadau Treth ac Yswiriant Gwladol); a Swyddfa'r Cabinet (taliadau yng nghyswllt Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil).

Ni chafwyd trafodion o bwys gyda sefydliadau lle roedd gan staff uwch, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, swyddi dylanwadol.

**13. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau**

| | Ymadael yn Gynnar £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill 2016 | 192 | 6 | 198 |
| Defnydd o'r ddarpariaeth | (101) | (6) | (107) |
| Darpariaeth o fewn y flwyddyn | - | - | - |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2017 | 91 | - | 91 |

**Dadansoddiad o Amseriadau Disgwyliedig Darpariaethau**

| | Ymadael yn Gynnar £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn | 9 | - | 9 |
| Ar ôl un flwyddyn a chyn pen pum mlynedd | 82 | - | 82 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - | - |
| Ar ôl pum mlyneddGweddill ar 31 Mawrth 2016 | 91 | - | 9 |

**Costau Ymadael yn Gynnar**
Mae'r Comisiynydd yn talu am gost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yng nghyswllt gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar trwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar ac oedran arferol ymddeol. Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd yr ymadawiad cynnar yn dod yn rhwymol trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir.

**14. Digwyddiadau wedi'r cyfnod adrodd**
Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad datganiad y sefyllfa ariannol a dyddiad llofnodi'r cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w rhyddhau ar 27 Gorffennaf 2017.